

# ECO'R WYDDFA

## EFFEITHIAU AR YSGOLION Y FRO — CWTOGI YM MHENISARWAUN

Yn dilyn ymdrechion teg y Prifathro a Chorff Llywodraethol Ysgol Tan-y-Coed i geisio perswadio Awdurdod Addysg Gwynedd i beidio â chwtogi ar staff yr ysgol eleni, penderfynodd y rhieni yn unfrydol i ddangos eu cefnogaeth hwythau.

Bellach mae Cyfeillion Tan-y-Coed wedi llythyr â'r Cyfarwyddwr, Y Swyddfa Gymreig a'r Aelod Seneddol Mr Dafydd Wigley mewn ymgais i ddarbwyllio'r Awdurdod rhag chwtogi rhif yr athrawon o 3 i 2.5 o Fedi '90 ymlaen. Er mwyn dwyn cyhoedduswydd i'r achos aeth y rhieni a'r plant i bencadlys y Cyngor Sir yng Nghaernarfon i brotestio gan gyflwyno deiseb yn dangos unoliaeth barn yr ardal ynglŷn â'r toriad.

Rhif 160

GORFF/AWST 1990

Pris 25c

## YR ENNILL LLYFRGELL I GOFIO AM EMMA

Sefydlwyd llyfrgell newydd yn Adran Saesneg Ysgol Brynrefail i goffau Emma Bernard, y ferch ifanc a laddwyd mor drist mewn damwain car fis Awst diwethaf.

Saesneg oedd hoff bwnc Emma yn yr ysgol, a daeth y newyddion am ei llwyddiant yn y pwnc yn lefel A ychydig ddyddiau wedi ei marwolaeth. Dymunodd ei rhieni drosglwyddo'r arian a gasglwyd yn ystod yr angladd i Adran Saesneg yr ysgol ar gyfer prynu adnoddau. Cyfrannwyd y swm o £500 a phenderfynodd Mrs Beryl Jones, pennaeth yr Adran Saesneg, sefydlu llyfrgell ddsbarth, er cof am Emma. Bydd arysgrif ym mhob cyfrol yn dynodi fod y llyfr yn perthyn i'r llyfrgell goffa.

Yn y llun gwelir Mrs Jones gyda Hannah Rudkin o'r chweched dosbarth, a rhai o'r llyfrau a brynwyd i ddechrau'r casgliad.



### CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG

i drafod diwyg a chyfansoddiad Eco'r Wyddfa  
Nos Iau, Gorffennaf 5  
am 7.00 o'r gloch yn y  
Sefydliad Coffa, Llanrug  
Croeso cynnes i bawb  
sydd a diddordeb

Llun: Arwyn Roberts



## — A'R COLLI

### DIFROD YN YSGOL BRYNREFAIL

Dyma adroddiad y Pennaeth, John Grisdale

Rhywbryd yn gynnar fore Sadwrn, 16 Mehefin, torrodd lladron i mewn i'r ysgol gan greu difrod sylweddol wrth iddynt grwydro yn sustematig drwy'r adeilad yn difrodi drysau, ffenestri a dodrefn er mwyn dwyn arian o sêff yr ysgol.

Caiff pob ysgol drafferthion i gael dau pen llinyn ynghyd y dyddiau hyn. Drwy bolisi Rheolaeth Leol, golygir bod ysgolion yn uniongyrchol gyfrifol am gyfran helaeth o'r difrod a dwyn a wneir mewn ysgol. Golyga hyn bod rhaid cyfeirio arian a fwriedir i brynu llyfrau, offer, celfi ac adnoddau o bob math ar gyfer y disgyblion — adnoddau sydd eisoes yn brin iawn ym mhob sefydliad addysgol — i adnewyddu'r difrod a chlirio'r llastr ar ôl digwyddiad o'r math yma.

Mesurir y colledion mewn cannoedd o bunnoedd. Felly, gofynnir yn garedig i drigolion y fro sy'n byw gerllaw'r ysgol, neu unrhyw ysgol arall o ran hynny, i fod yn wyladwrs, gan roi gwybod i'r Heddlu am unrhyw beth amheus. Mae disgyblion Ysgol Brynrefail eisoes wedi cael yr her i helpu i ddiogelu eu hysgol. Hyderir y gellir derbyn yr un gefnogaeth oddi wrth drigolion y cylch.



Drws y swyddfa wedi ei dorri a droriau a'u cynnwys wedi eu taflu ar y llawr. Rhan fechan o'r difrod yn Ysgol Brynrefail. (Llun arall ar dudalen 13).

Yn ystod yr un penwythnos torrodd lladron eu ffordd i Ysgol Gynradd Waunfawr gan ddwyn gwerth £900 o offer cyfrifiadur-on a pheiriant fideo a thapiau addysgol.

Hyd yma cri y cyfarwyddwr cynorthwyol Mr Gwyn Hefin Jones yw fod y fformiwla o gyllidebu ysgolion yn dangos na ellir ond cyflogi 2.7 athro yn Nhan-y-Coed. Yn naturiol felly mae cyfran sylweddol o ysgolion cynradd eraill ac ym mro'r Eco hyd yn oed yn yr un cwch.

Gobaith Cyfeillion Tan-y-Coed yw fod y brotest hon yn mynd i ddeffro rhieni yr ardaloedd hynny i sylweddoli y niwed mae hyn am gael ar addysg eu plant. Cysylltwyd eisoes â Than-y-Coed gan gynrychiolwyr ysgolion o begynnau eithaf Gwynedd sef Llanddona a Chorris sydd hefyd yn wynebu yr un toriadau.

Cred y rhieni yn gryf nad oes ffactor bwysicach na chymhareb athro disgybl yn nhermau addysg a gresynnir fod yr Awdurdod o dderbyn cynnydd o 0.3% yn eu cyllideb yn parhau i fynnu toriadau o'r fath.

Gwelir hefyd fod yr ymdriniaeth o athrawon unigol yn hynod o sarhaus ac nad oes lais bellach i'w cynrychioli na'u hamddiffyn rhag mympwy ariannol yr Awdurdod y maent yn ei wasanaethu.

Yn hynod o anffodus yn achos Pénisarwaun ni dderbynia'r Awdurdod fod angen adolygu ei

(Parhad ar dudalen 13)



# ECO'R WYDDFA

RHIF 160  
GORFF/AWST 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru.

## SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

## GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-  
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon  
3515)

## GOLYGYDD NEWYDDION

### PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt  
(870760)

### GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun  
(Llanberis 872407)

### ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,  
Tanycoed (C'fon 5668)

### DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,  
Llanrug (Waunfawr 200)

### FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug  
(C'fon 77263)

### TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug  
(C'fon 5605)

### TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,  
Llanrug (C'fon 5510)

### TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

### TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,  
Llanrug (C'fon 4778)

### GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r  
bobl i gysylltu â nhw yn eich  
ardaloedd.

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran,  
(Portdinorwig 670726)

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys  
Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts,  
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

**CEUNANT:** Gwenno Parri, Morwel  
(Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLLEN:** W O Williams, 6 Rhyd-  
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG:** Mr D J Thomas, 8 Maes  
Eilian (870773)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri, 870491.

**LLANRUG:** Mrs Dyfi Jones, Tyddyn  
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

**NANT PERIS:** Mrs Ann Fleming,  
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,  
Sycharth (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Bethan Parry, Ael  
y Bryn. (872 276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

**NOS IAU, AWST 30**

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH,**

**AWST 21**

os gwelwch yn dda.

## Anrhefn ar gopa'r Wyddfa! GRŴP ROC YN CYRRAEDD Y BRIG

Ar bawn Sadwrn, 9ed o Fehefin, cynhaliwyd y gig uchaf yng Nghymru (os nad ym Mhrydain) gan y grŵp roc ANHREFN. Cyrchodd tua 200 o bobl i'r caffi ar y copa i wrando Sion Sebon, Sion Jones, Rhys Mwyn a Gwyn Jones yn lansio'u record newydd 'Rhedeg i Paris'.

Roedd trênn arbennig wedi ei llogi i gario'r 'ffans' i'r copa, ond bu'n rhaid i'r mwyafrif gerdded i fyny yng nghanol niwl trwchus a glaw man. Cymaint oedd awydd rhai i wrando ar y grŵp, fel eu bod wedi teithio yno o bob rhan o Gymru. Yn wir, roedd dau o'r dilynwyd wedi dod yr holl ffordd o Fryste a cherded i'r copa ar ôl gwerysyla yn Llanberis dros nos. Ond chwarae teg, cawsant eu cario 'nôl' ar y trênn!

Recordiwyd 'Rhedeg i Paris' yn Llundain gyda Dave Goodman — cynhyrchydd a fu'n cyd-weithio gyda'r Sex Pistols, a rhyddhawyd y record gan gwmni CRAI o Ganolfan Sain, Llandwrog. Mae'n gwerthu am £2 y copi.

Diddorol nodi i'r lansio gael ei hysbysebu nid yn unig yn y Wasg Gymraeg (Herald, Cymro) a'r

cylchgrawn 'Sothach', ond hefyd yng nghylchgronau pop/roc Saesneg, gan gynnwys y 'New Musical Express'. Nid Cymry yn unig sy'n dilyn yr ANHREFN.

## GWERTHU'R 'ECO' AR FAES PRIFWYL YR URDD

Bu nifer o blant a phobl ifanc yn helpu i werthu copiau o'r 'Eco' ar Sadwrn olaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Casglwyd tua £40 — ac enillodd y gwerthwyr arian poced iddynt eu hunain hefyd.

Gyda diolch i Iolo, Bryn, Gwion, Gethin, Carwyn, Dylan, Nia, Siobhan, Ffion, Catrin, Sioned, Ceri, Lynne, Dwynwen, Gwenan, Llinos, Hefina a Delyth.

Diolch hefyd i'r merched ar Stodin DNA 90 am 'gartref' dros gyfnod y gwerthu.



Hefina yn dilyn prentisiaeth fel Trefnydd Gwerthiant y dyfodol.

## HANNER DEUAWD O'R FRO!



Sophie Evans o Lanrug a ddaeth yn ail (gyda Mererid Williams o Gaernarfon) ar y ddeuawd dan 15 oed yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Roedd Sophie yn aelod hefyd o bartion buddugol o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, ac yn cymryd rhan yn y Sioe Gerdd 'Tri, Dau Un'.

## ENILLYDD TLWS LES MORRIS



Ffion Medi Hughes o Gaeathro, enillydd Tlws Les Morris yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon am yr Unawd Cerdd Dant dan 19 oed. Daeth Ffion yn ail hefyd yn y gystad-leuath Alaw Werin dan yr un oedran.

## DRAENOG

Llongyfarchiadau i un o nyrsus y fro am ddarganfod y dull rhataf o deithio i Landudno ac yn ôl mewn car. Mae'n ymddangos i nyrs o'r fro brynu car newydd a'i yrru i Landudno. Ond er gwaethaf y ffaith fod y car yn newydd, doedd dim cychwyn adra yn ei groen o. Doedd dim amdani ond ffonio'r garej lle'i prynwyd a chwyno. Anfonwyd rhywun yno i lusgo'r car yr holl ffordd adra — a darganfod mai tanc petrol gwag oedd yr achos am i'r car beidio cychwyn! Ond mae'r nyrs yn dal i honni fod mesurydd y tanc yn dangos 'llawn' cyn cychwyn o Landudno.

Fedrwch chi ddyfeisio dull rhatach o ddod a car o Landudno? Anfonwch eich atebion i'r clinic arbennig sydd wedi ei gychwyn i ddelio a phroblemau o'r fath yn ...

## GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A  
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau  
a Dodrefn y gorffennol



FFÔN:  
LLANBERIS  
870080

Beth am  
ddysgu  
dreifio gydag  
YSGOL YRRU  
**BETHEL**

## TACSI CARIAN

- \* Pell ac agos
- \* Stesion, Maes  
Awyr, Porthladd
- \* 24 awr y dydd

Cysylltwch â Dic ac Eirlys  
42 Bro Rhos, Bethel  
**PORTDINORWIG 671009**



# SEFYDLU MENTER WLEDIG YM MRO PADARN

## Penderfynu cyfuno pedair cymuned bro'r 'Eco'

Plwyfi dalgylch 'Eco'r Wyddfa' sef Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a'r Waunfawr fydd yn cael eu cynrychioli gan Antur Padarn. Dyna'r penderfyniad pwysicaf a wnaethpwyd mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llanrug nos Iau, 7 Mehefin. Galwyd y cyfarfod gan Gyngor Cymuned Llanrug, gyda Gwyn Hefin Jones yn cadeirio, ac Alun Daniel o Awdurdod datblygu Cymru yn annerch.

Er hynny, rhaid cydnabod mai siomedig oedd nifer y rhai a fynychodd y cyfarfod.

Trefnwyd y cyfarfod o ganlyniad i gyhoeddi rhestr Awdurdod datblygu Cymru o ardaloedd yng Ngogledd Cymru sydd i dderbyn cymorth ariannol tuag at fentrau bro eleni. Yn eu plith mae Antur Nantlle ac Antur Ogwen. Eglurodd Alun Daniel pam nad oedd Bro Padarn ar y rhestr. Cynhaliwyd cyfarfod gyda cynghorwyr cymuned yn Llanberis fis Gorffennaf y llynedd, ond ni chafwyd ymateb pendant gan unrhyw un o'r cynghorau. Dywedodd fod angen tair elfen yn angenrheidiol i gynllun gweithredol:

(a) cefnogaeth y trigolion lleol.

(b) proses integredig i ddod a syniadau at ei gilydd.

(c) fod y syniadau yn addas i anghenion diwylliannol, cymdeithasol ac ieithyddol yr ardal.

Aeth ymlaen i egluro fod yn rhaid i ardal gynnig cynllun realistig ac ymarferol os oedd i'w gysidro o ddifrif gan Awdurdod Datblygu Cymru. Pwysleisiodd yr angen i'r gefnogaeth ddod o'r gymdeithas leol, ac y byddai perchnogaeth unrhyw gynllun yn aros yn y gymuned.

Ychwanegodd mai o Fangor y byddai'r cynlluniau yn cael eu gweithredu.

Gan fod pawb yn gweld anghenion gwahanol o fewn eu broydd, pwysleisiodd Alun Daniel yr angen am gael barn y trigolion lleol. Un dull o gasglu y wybodaeth honno oedd dosbarthu holiadur. Eglurodd rhai o gynrychiolwyr Cyngor Cymuned Llanberis eu bod hwy eisoes yn casglu gwybodaeth ar ffurf holiadur. Yn yr un modd, dywedodd Glyn Tomos ar ran Antur Padarn, eu bod hwythau yn barod i ddsbarthu holiadur yn yr ardal, a hwnnw'n seiliedig ar holiadur tebyg gan Antur Llŷn.

Yn dilyn hyn, cafwyd cryn drafodaeth ar y camau nesaf i'w dilyn, a chafwyd amryw o awgrymiadau nad oedd wrth fodd rhai neu'r cyfan o'r nifer yn bresennol. Penderfynwyd ar ddiwedd y cyfarfod fod y cyfarfod cyhoeddus yn cael hawl i gyf-ethol aelodau i gydweithio gydag aelodau Antur Padarn — a hynny'n bennaf ar y cychwyn

i drafod yr holiadur a'r dull o'i ddsbarthu. Yn dilyn, gobeithir galw cyfarfod cyhoeddus arall i roi gwybodaeth fwy trylwyr am hyn.

(Deallwn fod un cyfarfod eisoes wedi ei gynnal, a'r gobaith yw rhoi adroddiad llawnach arno yn rhifyn nesaf yr 'Eco').



Gwyndaf Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanrug, Gwyn Hefin Jones, Cadeirydd y Cyfarfod Cyhoeddus, Alun Daniel, Cyfarwyddwr Awdurdod Datblygu Cymru, ac Albert Roberts, Swyddog gyda'r ADC yng Ngwynedd.

## 'ANTUR PADARN' dros waith i'r fro

Fel y soniwyd yn rhifyn mis Mehefin o'r 'Eco' mae 'ANTUR PADARN' wedi ei sefydlu yn yr ardal. Eisoes mae gwaith yr Antur yn mynd o nerth i nerth, ac arwydd gobeithiol ar gyfer y dyfodol oedd y penderfyniad ar ddiwedd y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar Mehefin 7 yn Llanrug i drafod menter wledig sef y dylai pawb yn awr roi pob cymorth posibl i'r Antur yn y dasg o ddenu gwaith i'r fro. Eisoes mae'n dda gallu adrodd bod rhai wedi ymateb i'r her yma. Yma cawn amlinelliad pellach o'r hyn yw gobeithion Antur Padarn ar gyfer y dyfodol ...

### Be' 'di 'Antur Padarn'?

Criw o bobol lleol sy' wedi dod at 'i gilydd efo un bwriad mewn golwg — codi nifer a safon y swyddi sydd ar gael yn yr ardal i'r rhai sy'n byw yma. Hawdd iawn fasa dweud ein bod ni am greu cannoedd o swyddi ac y bydd pawb ar ben eu digon am byth; ond mae pawb wedi cael llond bol o'r fath dwyll bellach. Yn hytrach, mae Antur Padarn am weld creu swyddi dibynadwy, parhaol sy'n talu cyflog y gall rhywun fod yn falch ohono fo. Swyddi sy'n medru cadw pobl yn eu cynefin, a thrwy hynny gadw a chryfhau y gymdeithas leol.

### Pwy 'di 'Antur Padarn'?

Pobol fatha chi. Gwŷr a gwragedd, hen ac ifanc, mewn gwaith ac heb waith. Pobl sydd am weld gwella'r cyfle am waith ac ansawdd y gwaith sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer pobol ifanc. Mae 'Antur Padarn' yn cynnwys athrawon, gwragedd tŷ, gweithwyr llywodraeth leol, myfyrwyr ysgol, unrhyw un sydd yn fodlon gwneud ymdrech a chynnig syniadau; ac os ydach chi'n teimlo awydd cyfrannu, mae'r drws yn agored i chi. Mae croeso i bob gwybodaeth, ac i bob syniad.

### Pam 'Antur Padarn'?

Oherwydd inni ddallt un neu ddau o wirionedda'. Yn gyntaf, rhaid inni gael digon o swyddi a'r rheini yn rhai digon da i gadw pobol ifanc a theuluoedd gydol y flwyddyn. Heb swyddi felly, mae pobol yn enwedig pobl ifanc, yn gadael, ac y mae'r holl gymdeithas yn dechra' mynd a'i

phen iddi. Doedd y chwarael erystalwm ddim mo'r lle gorau i weithio ynddo fo yn ôl safonau heddiw, ond roedd o'n cynnig cyflog i gannoedd o bobl a'u teuluoedd. Ers i'r chwareli gau, does 'na ddim wedi dod i lenwi'r bwlch.

Yn ail, os ydan ni am weld llenwi'r bwlch, os ydan ni am weld creu a chynnal y swyddi y mae yna gymaint o'u hangen, rhaid i ni'n hunain wneud y gwaith. Gwers mawr y blynydd-oedd diweddera 'ma yw nad oes neb arall am ein hachub ni: nid cyrff y llywodraeth, nid cwmnïau mawrion o'r tu allan, nid hyd yn oed y Cyngor Dosbarth a etholwyd gennym. Mae pawb sydd â grym wedi sefyll ac edrych ar yr ardal yn mynd rhwng y cŵn a'r brain ers dros ugain mlynedd. Arwydd o hynny oedd cynllun 'Leading Leisure' ar gyfer Glynrhonwy: fod yr awdurdodau wedi rhoi'r ffidil yn y to, ac yn fodlon gweld troi'r ardal yn gae chwarae. Dyna oedd y diwedd.

Ond nid mor hawdd mae difa hen gymdeithas. Yn lle darfod o dan draed cwmni diarth, mae'r fro 'di codi, a sefyll, a dangos i bawb na chym'wn ni ddim mo'n gwerthu felly. Rwan mae 'Leading Leisure' wedi tynnu'n ôl, does fyw inni aros yma gan ddisgwyl y cwmni nesaf: rhaid inni ganolbwyntio ar lenwi bwlch y swyddi ym mywyd yr ardal.

### Be' wnaiff 'Antur Padarn'?

Roedd 'Cymdeithas Padarn' wedi dechrau'r gwaith trwy gynnal arddangosfeydd yn y stryd, gofyn i bobol be' fasan nhw'n hoffi'i weld yma, a

**ANTUR PADARN**  
Cyfarfod nesaf  
Nos Fawrth, Gorffennaf 3  
am 7.00  
yn Angorfa, Stryd y Ffynnon  
Llanberis

chysylltu â gwyddonwyr ynglŷn â phosibilrwydd defnyddio gwastraff llechi ar gyfer diwydiannau newydd. Rwan mae 'na fodd canolbwyntio'n llwyr ar syniadau felly. Mae'r 'Antur' wedi'i ffurfio, mae wedi cysylltu efo'r Bwrdd Datblygu er mwyn ceisio cael eu cymorth a'u cyngor nhw — gan gynnwys swyddog datblygu llawn amser yn y dyfodol, gobeithio — ac wedi cysylltu efo mentrau eraill fel Antur Llŷn, Antur Nantlle ac ati. Mae 'na gyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal yn Llanrug er mwyn sefydlu 'Antur Padarn' fel yr antur cydnabyddedig ar gyfer Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a Waunfawr. Mi rydan ni'n symud!

Y peth cyntaf i'w wneud fydd canfod be'n union sy' gan yr ardal a'i phobl i'w gynnig. Faint o bobl sy' a gwaith, be' sy' gan bobol i'w gynnig o ran addysg a gallu, sut fath o waith y basa' nhw'n ei hoffi, ac ati. Yn lle dweud wrth bobol 'Rhaid i chi ...' gofyn 'Be' fasa'ch barn chi ...!' ac 'A hoffech chi ...?'

Felly mae 'na holiadur yn mynd i gael ei ddsbarthu yn y pentrefi (yn gynnar ym mis Medi), i bobol ei lenwi a'i ddychwelyd atom efo'r wybodaeth y mae'n rhaid ei gael os ydan' ni am greu gwaith. Dyma'r ffordd y gwelwn ni be' sy'i angen arnom: dyma'r cam cyntaf hyd ein ffordd ni at well dyfodol.

Cofiwch unig ddiben yr holiadur yw creu gwaith. Y cwbl yr ydym yn ei ofyn

(Parhad ar dudalen 14)



# Llafar

‘... bydd mawr y rhai bychain’

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'n siŵr fod llawer o'r darllenwyr wedi cael mwy na llond bol a syrffed llwyr, nid yn unig o ddiodeff gwylio gemau di-ddiwedd Cwpan Peldroed y Byd, ond o wrando ar sylwadau y gwybodusion rheini oedd yn darogan y canlyniadau — ac yna, ar ôl eu cael yn anghywir, yn egluro beth oedd wedi mynd o'i le.

Wrth gwrs, cafwyd mwy o flau awyr nag arfer ar y teledu ac yn y wasg ynglyn a diffygion tîm peldroed Lloegr, llanastr yr Alban yn erbyn Costa Rica, a'r math o beldroed a chwaraeir gan y tîm sy'n galw'i hun yn Weriniaeth Iwerddon. Mae tuedd ynom i gefnogi'r Gwyddelod fel un o'n cyd-frodyr Celtaidd, ond y gwir amdani yw mai cymysgedd o Wyddelod ac ail dîm Lloegr sydd gan Iwerddon. Yn wir, mae'n ymddangos fod gan chwaraewyr hawl i ddewis Iwerddon fel eu 'mamwlad' os bu i'w nain brynu menyng Kerrygold rhywdro. Yn anffodus, mae 'dewis' gwlad yn batrwm rhy gyffredin bellach, gyda rhai o chwaraewyr Cymru a nemor ddim cysylltiad a'u gwlad fabwysiedig.

Mor wahanol yw'r gwledydd 'bychan' — yn ystyr peldroedaidd y gair. Dangosodd gwledydd fel Cameroon, Costa Rica a'r Aifft, fod sgiliau sylfaenol brwdfrydedd a balchder cynrychioli eu gwlad yn medru darostwng 'cewri' fel yr Ariannin.

Onid yw'n bryd bellach (a'r byd hwn mor fach) i anghofio am y sistem o ddisbarthu timau fesul cyfandir i benderfynu pwy sy'n cael ymddangos yn rowndiau terfynol Cwpan y Byd? Onid chwa o awyr iach a gobaith am frwdfrydedd newydd yn y gêm fyddai gweld Cymru yn cystadlu am le yng Nghwpan y Byd mewn grŵp allai gynnwys Canada, Uruguay a Zambia, yn hytrach na'r un hen wynebaw Ewropeaidd?

## CAIS AM HET GYMREIG

Annwyl Olygydd,  
Ysgrifennaf atoch fel aelod o FFIDL FFADL, sef grŵp dawnio gwerin ar Ynys Môn, er nad ydym i gyd yn enedigol o'r ynys.

Ffurfiwyd y grŵp y llynedd ac ers hynny rydym wedi ymchwilio i wisgoedd Cymreig a wisgwyd yn y rhan yma o Gymru yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Rwyf yn enedigol o Lanbêr, (merch Hilda a Bob, 5 Rhes Faenol) ac o'r herwydd mae'r wisg sydd gen i yn nodweddiadol o ardal Lanbêr.

Hoffwn yn fawr gael gafaer ar het Gymreig i gwblhau'r wisg. Tybed a oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr het o'r fath, er mwyn i mi gael golwg arni.

Os bydd rhywun eisieu cysylltu, rhif ffôn fy rhieni fyddai orau mae'n debyg. Rhif ffôn: Llanbêr 870543. Gyda diolch,  
PAULINE GRIFFITHS,  
5 Rhes Llwyn,  
Llangefni.

MAE'R  
SAMARIAID  
YN GWRANDO,  
YN ABBEY ROAD



BANGOR  
354646

## CYNLLUN CASETIAU CYMRAEG I'R DEILLION

Annwyl Olygydd,  
Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at ein gwasanaeth casetiau. Hwyrach y bydd y rhai fydd yn darllen y geiriau hyn yn wybod am rywun sydd â nam ar ei olwg ac a fuasai'n mwynhau derbyn ein casetiau. Mae gennym ddewis da o lyfrau ar dâp, yn nofelau, straeon byrion, cofiannau, ynghyd â darlenniadau o'r Beibl a phregethau. Gall ein gwrandawyr fwynhau rhychwant eang o lenyddiaeth yn ymestyn o 'Gwen Tomos' gan Daniel Owen hyd at 'Y Stafell Ddirgel' gan Marion Eames.

I'r rhai sydd wedi cael eu cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall, does dim byd o gwbl i'w dalu. Mae'r casetiau'n cael eu cludo drwy'r post am ddim. Gall eraill sydd heb eu cofrestru ond sydd yn cael trafferth i ddarllen, dderbyn y casetiau trwy dalu'r cludiad.

Buasem yn ddiolchgar i weithwyr cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd pe baen nhw'n dweud wrth y rhai sydd yn dod o dan eu gofal am ein gwasanaeth casetiau.

Os hoffech gael rhagor o fanylion am y Cynllun a chopi o'r catalog, anfonwch air at Rhian Evans a Rhian Thomas, 1 Penlan, Caerfyrddin. Rhif ffôn: 0267 238225.

Yr eiddoch yn gywir,

RHIAN EVANS a  
RHIAN THOMAS,  
1, Penlan,  
Caerfyrddin,  
Dyfed.

# LLYTHYRAU

## SEREMONI CROESAWU'R CYMRY TRAMOR — DERBYNIAD SWYDDOGOL

Annwyl Gyfaill,  
Eleni eto mae Mudiad 'Cymru a'r Byd' yn trefnu i groesawu'r Cymry tramor i'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn ogystal a'r Seremoni ar lwyfan y Brifwyl ddydd Sadwrn, Awst 4ydd, trefnir Derbyniad Rhyngwladol i groesawu'n ôl i Gymru ein cymrodyr sy'n byw mewn gwledydd tramor.

Yn Neuadd Fawr ysblennydd Castell Caerffili y cynhelir y Derbyniad a hynny am 6.00 o'r gloch nos Wener cyn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghwm Rhymini (Awst 3ydd).

Bydd croeso mawr yno — diod, cinio bwffe ac adloniant o'r radd flaenaf a fydd yn cynnwys Côr Telyn Teilo, Dawnsywyr Nantgarw a rhai o delynorion ifainc Cymru.

Os gwyddoch am ffrindiau neu berthnasau a hoffai gymryd rhan yn y Seremoni a/neu ddod i'r Derbyniad (mae'r tocynnau 'i'r Derbyniad yn £12.00 yr un) yna anfonwch yn ddioed ataf fi, os gwelwch yn dda, i'r cyfeiriad isod, neu ffoniwch (0758) 613421.

OSIAN WYN JONES,  
(Ysgrifennydd Mygedol),  
Hiraethog,  
Llannor,  
Pwllheli,  
Gwynedd, LL53 5UR.

## CODI CWESTIWN

Annwyl Olygydd,  
Nos Wener, 20 Gorffennaf 1990, bydd S4C yn darlledu seiat holi fyw gan Ffilmiau Elidir dan y teitl 'Codi Cwestiwn' o Stiwdio Barcud, Caernarfon. Fel yr awgryma'r teitl dyma eich cyfle chwi fel cynulleidfara'r sianel i ofyn cwestiynau am broblemau lleol neu genedlaethol sy'n eich poeni. Y Cadeirydd fydd Russell Isaac a'r panelwyr fydd D. Elwyn Jones, Asiant y Ceidwadwyr yng Ngogledd Cymru; Elan Closs Stephens, Pennaeth yr Adran Ddrama, C.P.C. Aberystwyth; Dafydd Iwan, Is-lywydd Plaid Cymru; a Gwilym Humphreys, Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd. Peidiwch a cholli'r cyfle gwych yma, neu efallai na fydd yna gynnig arall i chwi Godi Cwestiwn.

Darlledir y rhaglen yn fyw bob nos Wener rhwng yr 8fed o Fehefin a'r 3ydd o Awst rhwng 8.55 pm a 9.40 pm, ac fe fydd y mynediad am ddim trwy docyn oddi wrth Trefor Williams (0286 86811) neu trwy gysylltu â Ffilmiau Elidir.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Ynyr Williams, Ymchwilydd, ar y cyfeiriad isod. Yn ffyddlon,  
YNYR WILLIAMS,  
Ymchwilydd,  
Uned 10,  
Canolfan Fusnes Priority,  
Curran Road,  
Caerdydd.  
(0222 378578).

## APÊL (ARALL) AM STIWARDIAID

Annwyl Ddarllenwyr,  
Cyfarchion o Gwm Rhymini i chi ddarllenwyr y papurau bro. Fuoch chi 'rioed yng Nghwm Rhymini? Naddo? Dyma gyfle heb ei ail i chi ddod atom yn y gornel ddeddwyrain hon fis Awst eleni i fwynhau Eisteddfod 1990.

Mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen yn hwylus, y cystadleuwyr gyda'r gorau ers blynnyddoedd, Is-bwyllgorau di-ri yn brysur yn clymu'r llinynnau'n dynn at ei gilydd. Y plant (o bob oedran) yn ymarfer eu doniau ar gyfer gweithgareddau'r wythnos.

A'r stiwardio? Fy mraint i — fel Prif Stiward Eisteddfod Cwm Rhymini yw eich gwahodd i gyfrannu at y bwrllwm bro fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod Awst 4-11 eleni. Mae ffyddloniaid yr Wyl wedi cynnig eu gwasanaeth yn barod — carfan fawr ohonynt yn ddysgwyr, ond nid yw rhestr y stiwardiaid yn gyflawn eto.

Beth am godi'r ffôn am sgwrs neu godi'r beiro i ysgrifennu gair ataf yn Swyddfa'r Eisteddfod. Mae gwir angen eich help fel stiwardiaid arnom.

Edrychaf ymlaen at eich cwrdd ar faes Eisteddfod Cwm Rhymini, Awst 4-11 1990.  
GWYN GRIFFITHS,  
Prif Stiward,  
Swyddfa'r Eisteddfod,  
41 Heol Hanbury,  
BARGOED.  
Morgannwg Ganol.

## CREFFT ADFER IAITH

Annwyl Olygydd,  
Fel myfyrwyr yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, teimlem fod y broblem mewnffudo i Gymru yn un ddyrys, ac oherwydd hynny, yn gwanhau safle'r Gymraeg.

Felly, fel rhan o gwrs Crefft Adfer Iaith yn y Gymraeg — aethom ati i greu taflen a fyddai'n cynyddu ymwybyddiaeth mewnffudwyr o'r Gymraeg, ei phobl, a'i diwylliant. Nid pwrpas y daflen yw denu mwy o bobl i Gymru, ond yn hytrach i ddenu'r rhai sydd yma'n barod i ymdoddi i'r gymdeithas ac yn y pen draw, efallai, i ddysgu'r iaith.

Dosberthir y taflenni yma drwy garedigrwydd asiantwyr tai Aberystwyth i'r prynwyr tai — hyd yma.

Hoffwn ehangu'r dosbarthiad presennol i drefi eraill drwy Gymru. Gobeithiwn drwy'r llythyr yma y bydd asiantwyr tai eraill yn derbyn ein cynnig. Am ragor o wybodaeth, cysyllter â'r cyfeiriad isod.

Yn gywir,  
ELINOR WYN REYNOLDS,  
(Ar ran myfyrwyr cwrs Crefft Adfer Iaith, C.P.C., Aberystwyth)  
Adran y Gymraeg,  
Yr Hen Goleg,  
Heol y Brenin,  
Aberystwyth,  
Dyfed.



## SÔS H.P.

Annwyl Gyfeillion,  
Cig moch i frecwast, sleisen o ham  
i ginio a phedair sosej i swper.  
Prydau blasus Cymreig. Taenwch  
sôs Huw Puw yn blaster drostyn  
nhw a dyna chi yn y seithfed nef.

Os ydych chi yn gwirioni ar sôs  
brown HP gyda phob pryd — hyd  
yn oed ar eich 'Corn Flakes' yn y  
bore ac efo'ch cinio dydd Sul —  
mae Hel Straeon yn fwy nag  
awyddus i glywed am eich  
arferion.

Hyd yn oed os ydych yn  
defnyddio'r botel i ddweud jôcs  
byddai gennym ddi-ddordeb.  
Glywsoch chi am Morris Main aeth  
ar goll. Lle cawson nhw hyd iddo?  
Yn cuddio tu ôl i'r botel HP!

Ac os nad ydych yn ei fwyta ond  
yn ei ddefnyddio at ddibenion eraill,  
cysylltwch â fi yn y cyfeiriad isod  
neu trwy ffonio 0286 77595.

ANN FÔN,  
Hel Straeon,  
Gronant,  
Caernarfon,  
Gwynedd.

## ATEB CYNGHORYDD I'R 'FRECH DDU'

Annwyl Olygydd,  
Petrusais yn hir cyn ateb erthyglau  
'Y Frech Ddu' oherwydd dydy  
erthygl na llythyr dienw ddim yn  
haeddu sylw nac ateb. Ond erbyn  
hyn mae'r sawl sy'n gyfrifol  
amdanynt yn raddol suddo i bwl  
enllibus.

Nid ydwyf am fod mor haerllug  
ag enwi cartrefi bobol leol, nac  
ychwaith trafod achosion y bobol  
hyn; mae'n rhaid i mi ddangos  
parch tuag atyn nhw.

Mae'r 'Eco' yn mynnu galw  
cartrefi newydd pobol leol yn  
'Frech Ddu' fel petai'r Cymry hyn  
yn heintus. Yn wir, i mi, halen y  
ddeaer yw'r pobol hyn sy'n mynnu  
aros yn eu cynefin i gynnal y  
gwerthoedd sydd mor bwysig i  
Gymru. Y felltith fwyaf yng  
Nghymru ydy'r stadau anferth o  
dai sy'n gwaedu cefn gwlad o'i  
phobol ifainc. Yn sgil hyn, mae  
pentrefi yn marw ac yn mynd yn  
bentrefi i bobol o'r tu allan.

Beth amser yn ôl gofynnwyd i mi  
gan un o olygyddion yr 'Eco', ateb  
yr erthyglau ond cefais fy siarsio i  
beidio â thrafod Glyn Rhonwy. Y  
rheswm am hyn, mi dybiaf, oedd  
bod 'barn broffesiynol swyddogion  
cyflogedig y cyngor' yn gryf o blaid  
codi 250 o dai ar lethr Cefn Du. Yr  
un pryd yr oedd yr 'Eco' yn annog  
cynghorwyr i dderbyn 'barn broffesiynol  
swyddogion cyflogedig y  
cyngor' a gwrthod caniatad i bobol  
leol godi tai yn eu pentrefi eu  
hunain.

Y mae'r 'Eco' yn sôn am Gynllun  
Lleol Arfon Wledig gyda pharch  
mawr. Mae'r cynllun hwn yn  
dangos safleoedd yn y pentrefi lle  
gellir gwneud cais i godi tŷ. Purion,  
ym Mhenisarwaun er enghraifft mi  
fedr wneud cais cynllunio yn  
y fynwent, mewn gerddi rhai o dai  
y pentref, ar y maes chwarae, ac  
ar darn o dir nad yw ar werth.  
Mewn geiriau eraill nid oes darn o  
dir lle fedr pâr ifainc godi tŷ a magu  
plant yn y pentref. Yr un yw'r drefn  
mewn amryw o bentrefi'r fro.

Os yw'r ysgrifennwr yn yr 'Eco'  
yn erbyn i bobol leol godi tai yn eu

cynefin, yna y lle i wrthwynebu  
ydy ar lawr siambr y Cyngor. Gall  
hwn/hon sy'n cwyno, sefyll ethol-  
iad, mynd ar y Cyngor a phleidleis-  
io yn erbyn pobol leol yn enwedig  
os ydy hi/fo yn eu 'nabod.

Cyn cau'r mwdwl rydw i am  
erfyn ar bobol leol aros yn eu  
broydd, codi tai yno a chadw'r  
gymdeithas hon sydd mor annwyl  
i lawer ohonom, yn fyw, yn egniol,  
yn iach ac yn Gymraeg. Da chi,  
peidiwch a gadael am y dref  
oherwydd i rywun dienw alw  
cartrefi neu ddarpar gartrefi yn  
'Frech Ddu'. Os ydych chi'n symud  
o'ch broydd yna fyddwch yn troi  
Cefn Gwlad yn faes chwarae i  
bobol ddiarth. Tra byddaf ar Gyngor  
Arfon byddaf yn ymdrechu hyd  
eithaf fy ngallu i fod o gymorth i  
bobol y fro hon.

Yn ddiffuant,  
PAT G. LARSEN,  
Llygad yr Haul,  
Penisarwaun,  
Gwynedd.

## PENAWDE



Rhys Siôn o'r Waunfawr fydd yn  
ymddangos ar y rhaglen 'Penawde'  
yn ystod mis Gorffennaf.

## DRAENOG



Mae'r ffermwyr yn sgut am arian  
— a'u llygaid yn agored am fargen  
bob amser. Clywed hanes un yn  
Llangefni yn ddiweddar. Gweld  
buwch ar werth — a honno'n cario  
llo. Teimlo'i hun yn dipyn o foi yn  
prynu dau am bris un. Ond y siom  
wedi cyraedd adra a darganfod  
fod y fuwch yn gofyn tarw.

## S.A.N.D.S. — Cymorth i Rieni Galarus

Mwy na thebyg na chlywsoch chi 'rioed am fudiad S.A.N.D.S. (Stillbirth and Neo-Natal Death Society). Ond mwy na thebyg i chi adnabod rhywrai, boed nhw'n aelodau o'r teulu neu gyfeillion, sydd wedi colli baban ar enedigaeth neu'n fuan wedyn. Ar yr adeg trist yma mae aelodau gweithgar Cymdeithas Marw-Anedig a Marwolaethau Neo-Nantal yn gallu bod o gymorth.

Mae Cangen Gwynedd o'r  
Gymdeithas yn bodoli ers deng  
mlynedd, pob aelod wedi bod  
drwy'r profiad o golli plentyn eu  
hunain. Gweithiant yn wirfoddol  
i gynorthwyo rhieni eraill ac i  
godi arian tuag at Unedau Gofal  
Arbennig i Fabanod neu at  
brynu cyfarpar ychwanegol i  
fydwagedd lleol.

Fe wneir cysylltiad cyntaf a  
S.A.N.D.S. rhan amlaf yn yr  
Ysbyty Famolaeth neu drwy  
fydwraig, pan dderbynnir  
bamffledi'r grŵp yn fuan wedi  
iddynt golli eu baban. Ceir  
cydweithrediad clos rhwng  
S.A.N.D.S. a'r Ysbyty, a  
chymeryd rhan yn ddiweddar  
mewn cwrs i'r staff. Bydd yr  
aelodau ar gael i ymweld â'r  
teulu yn yr ysbyty neu yn eu  
cartrefi os bydd gofyn amdanynt.

Yn Llundain y cychwynnodd y  
Gymdeithas, ac yn Saesneg y  
mae'r oll o'u cyhoeddiadau hyd  
yma — er fod Cangen Gwynedd  
yn cynhyrchu posteri dwyieithog  
ac aelodau yn barod i drafod  
problemau drwy'r Gymraeg. Y  
mis yma cyhoeddir eu pamffled  
cyntaf yn Gymraeg a bydd ar




gael i rieni galarus. Ynndo mae'r  
cyfarwyddiadau manwl cyntaf i  
gynorthwyo rhieni i ddatrys  
problemau ymarferol sy'n eu  
hwynebu mor annisgwyl.

Pwy feddyliodd erioed y  
basa'n rhaid iddynt gladdu  
plentyn? Pwy sy'n gwybod mor  
angenrheidiol yw hi i afael yn y  
plentyn, ei enwi, cadw pob  
sgrapyn o gofnod posibl ohono  
yn yr oriau neu'r dyddiau wedi'r  
geni?

Mae aelodau S.A.N.D.S. wedi  
gwynebu'r problemau eu hunain  
ac maent ar gael heddiw ac yn y  
dyfodol i fod yn gefn ac i roi cyfle  
i rieni galarus drafod eu  
problemau yn eu mamiaith.

Gellir cysylltu â S.A.N.D.S.  
Gwynedd drwy ffonio Bethesda  
601880, Bangor 370377, neu â  
phrif swyddfa S.A.N.D.S. yn  
Llundain 071-436-5881.

## FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampwl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod  
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,  
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

## GWASANAETHAU ARIANNOL

# ERYRI

## FINANCIAL SERVICES

41B STRYD FAWR  
**LLANBERIS**

Ffôn: 872003



Guardian  
Royal  
Exchange

icallpro

# CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug  
Ffôn: Caernarfon  
76772

TRIN GWALLT I  
BAWB O'R TEULU  
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch  
i drefnu amser



# DINORWIG

Gohebydd Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Sŵn cythrwfl a geir o bedwar ban byd. Ynghanol eu helbulon mae llywodraeth Romania, ac heb wybod yn iawn beth yw bwriadau Rwsia tuag atynt, a'r gwledydd Arabaidd hwythau yn ysu am gael dial ar Salman Rushdie, a'i Farddoniaeth Satanaidd. Er marw o'r Ayatolla Homeini, fe erys y dichter a'r chwerwder, ac arweinwyr eraill yn ymafael yn yr awenau. Ac o ganol y chwyldro terfysgld hwn, fe drown ninnau ein golygon at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd eleni ym Mharc Glynllifon a sicrhawyd gan Gangen Penygroes a Dyffryn Nantlle, Arfon — Glynllifon yn lle delfrydol i gynnal yr Eisteddfod.

Ymysg yr enillwyr roedd un sy'n dal cysylltiad teuluol agos ag ardal Dinorwig. Llongyfarchiadau mawr felly i Rhodri Elidir Thomas, wŷr Mrs Alice Thomas a'r diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir — mab y Parch a Mrs Idris Thomas, Y Rheithordy, Trefor, ar ennill ohono yr unawd Offeryn Pres dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle, Arfon. Derbyniodd Rhodri ganmoliaeth mawr gan y beirniad. Mae'n 11 oed, yn ddisgybl yn Ysgol yr Eifl, Trefor, ac yn aelod o Fand Trefor.

Fe'i hyfforddwyd gogyfer â'r gystadleuaeth gan Mr Geraint Jones, Prifathro Ysgol Trefor. Fe gofiwn i Rhodri ddod yn ail yn yr un gystadleuaeth yng Nghwm Gwendraeth y llynedd, a hyfryd iddo oedd ennill yn Nyffryn Nantlle eleni. Ei gyfeilyddes oedd un o athrawon Ysgol Trefor, Mrs Sianelen Fleming, gwraig Kelvin yntau o Ddinorwig a'i briod yn ferch yng nghyfraith i Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian. Dymunir pob llwyddiant i Rhodri yn y dyfodol.

**PRIODAS RUDDER:** Pleser hefyd yw uno yn y llongyfrachiadau i Gwilym ac Eileen Davies, 1 Bro Elidir ar ddathlu ohonynt eu Priodas Ruddem ar y 3ydd o Fehefin.

**GŴYL BREGETHU:** Yr un dyddiad fe gynhaliwyd gŵyl bregethu yn Sardis (B.), ac un o blant yr eglwys a wahoddwyd i'n gwasanaethu y tro hwn. Er mai fel 'Emlyn Tanfron' yr ydym ni yn ei adnabod, y mae'n adnabyddus i gylich ehangach fel y Parch Emlyn Jones, Llangloffan, Dyfed. Yr oeddem ni yn teimlo bod yr ŵyl yn llwyddiant diamheuol

y mhob ystyr. Roedd y cynulliadau yn galonogol iawn i mi sy'n mynychu'r capel o Sul i Sul pan fo'r nifer yn bresennol yn llai niferus. **PRIODAS:** Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 16, yn Eglwys St Mair fe welwyd uno mewn priodas, Shirley, merch Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian, a Colin Humphreys o Fethel. Derbyniwyd y ddeuddyn ein dymuniadau da.

**GŴYL GORAWL ERYRI:** Eleni roedd gŵyl gorawl Cylch Eryri o'r Eglwys yng Nghymru yn Eglwys Llanfair-is-gaer ar Sul, Mehefin 10. Fe ymddiriedwyd arweiniad y canu yn y pawns i'r Canon Glyndwr Williams gyda Mr Cyril Williams yn organydd. Yn yr hwyr, Mr Gareth Hughes Jones oedd yn arwain a Mr Cyril Williams eto wrth yr organ. Fe gafwyd cyfraniad yn ogystal gan 'Gantorian Elidir' dan arweiniad Mr Robin Jones a Mrs Menna Williams yn cyfeilio iddynt hwy.

**GŴYL BREGETHU:** Sul Mehefin 17 oedd Sul cynnal gŵyl bregethu Eglwys St Mair. Y Parch Peter Pritchard, Rheithor Llanberis, Cwmyglo a Llanrug oedd y pregethwr gwadd. Fe dynnodd yntau wersi i mi am Iesu Grist yn gweithio â'i ddwylo fel saer coed, pan oedd cyfrifoldeb teuluol arno ef o ganlyniad i farwolaeth Joseph. Mae'n werth cofio bod y Gwardwr wedi treulio'r rhan helaethaf o'i oes fer yn cyflawni gwaith â'i ddwylo — ffaith yr ydym yn dueddol o'i anghofio tra'n canolbwyntio ein sylw ar y tair blynedd cyhoeddus tra bu'n pregethu i'r tyrfaoedd ac yn addysgu ei ddisgyblion.

Fe ddadlennwyd bod gan y pregethwr le cynnes yn ei galon i ardal Dinorwig, yn arbennig gan fod ganddo atgofion am ei fodryb oedd yn byw yn Mhen Inclên.

**ADFERIAD IECHYD:** Yn ein rhifyn diwethaf fe gyfeiriwyd at reidrwydd Mr O. R. Williams, Tai Rhydfadog, Deiniolen, i fyned i'r ysbyty, ond hyfryd yw hysbysu bellach ei fod wedi dychwelyd adref, ac yn adenill ei nerth cynhenid. Parhæd i wella a chyfrannu mewn gwasanaeth i gapel Dinorwig (M.C.) ac mae ei gapel yntau yn dymuno adferiad llwyr iddo.

Yr ydym ynghanol dyddiau y mae'r haf yn ei anterth, ac er i dymor y gwanwyn droi'n siomiant,

eto fe barhawn i obeithio y cawn o leiaf rai dyddiau o haf hirfelyn, cyn dyfod tymor y gwyliau a'r adeg i baratoi ar gyfer gweithgareddau yr Hydref a'r Gaeaf unwaith yn rhagor.

**FANDALIAETH:** Ymddengys fod fandaliaeth wedi codi ei wyneb hyll unwaith yn rhagor yn y pentref. O fewn ychydig ddyddiau i giosg newydd sbon gael ei osod i fyny yn Fachwen bu yn darged i fandaliaeth. Fodd bynnag mae'n dda gallu adrodd nad yw y difrod wedi golygu nad ellir defnyddio'r ffôn yn y ciosg.

Mae'r holl fater yn creu cryn bryder i'r Cynghorwyr lleol sydd yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu cadw yn ein pentrefi. Nid yw difrod o'r math yma yn gwneud dim ond drwg i'w hachos. Dim ond gobeithio y bydd y ciosg wrth Minffordd yn cael llonydd ar ôl i hwnnw gael ei atgyweirio. Trueni na fuasem yn cael gwybod pwy sydd yn gyfrifol am ymddygiad mor anghyfrifol.

**EISTEDDFOD YR URDD:** Mewn cyfarfod o bwylgor y ganolfan ar yr 11eg o Fehefin mynegwyd diolchiadau i'r dynion am roi fflagiau yr Eisteddfod o gwmpas y Ganolfan ac i'r merched am drefnu lluniaeth a llety yn y Ganolfan yn ystod wythnos yr Eisteddfod i bobl ifanc o Ysgol Gyfun Dyffryn Aman. Deallwn bod y bobl ifanc wedi mwynhau eu hamseir yma yn Ninorwig. Hefyd diolchwyd i Mr Glyn Tomos am drefnu bws i fynd â phawb i'r Eisteddfod ar y dydd Mawrth. Er na chafwyd tywydd da ar y diwrnod cafodd pawb amser wrth eu bodd.

Ymysg materion eraill a

drafodwyd yn y cyfarfod oedd y cae chwarae, a mater y gor-yrru trwy'r pentref. Mynegwyd siom na chafwyd ateb gan Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i'r llythyr yn gofyn am osod arwyddion tri deg milltir yr awr ar y ffordd i mewn i'r pentref. Penderfynwyd gofyn i Swyddog o'r Adran Priffyrdd ddo i gyfarfod â'r pwyllgor yn eu cyfarfod nesaf. O safbwynt gwella cyfleusterau cae chwarae, cytunwyd i Mrs Karen Jones a Mrs S. Anderson gyfarfod â Swyddog o Gyngor Dosbarth Arfon i drafod y sefyllfa.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mrs Margaret Roberts, nawr yn byw yn yr Wyddgrug, ond yn wreiddiol o 1 Bro Elidir am ei phenodiad fel Cyflwynydd y Corn Hirlas yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn 1991. Bydd Mrs Roberts yn cychwyn ar ei dyletswyddau yn yr Ŵyl Gyhoeddi a gynhelir yn yr Wyddgrug ar ddydd Sadwrn y 7fed o Orffennaf.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i frawd a chwaer, Sara a Daniel Wood, Fron Heulog, am eu rhan yn y cynhyrchiad hynod o lwyddiannus hwnnw, 'Tri, Dau, Un' gan Cefin Roberts a gynhaliwyd yn Theatr Gwynedd, Bangor, yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Roedd canmoliaeth mawr i'r cynhyrchiad a da oedd gweld fod dau o bobl ifanc y pentref yn rhan o'r llwyddiant hwnnw.

**HWYL HAF '90:** Ysgrifennir yr ychydig nodiadau hyn wythnos o amser cyn diwrnod yr 'Hwyl Haf' yn Allt Ddu, Dinorwig. Gan obeithio y bydd yn dywydd braf ar y diwrnod, hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb ymlaen llaw fel hyn am bob cefnogaeth a chydweithrediad.

## TAN Y COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

**CYDYMDEIMLAD:** Dymunwn ni, y rhai oedd yn cydoesi â'r diweddar John Owen Griffith, 18 Margaret Strret, Caernarfon, ddatgan ein cydymdeimlad diffuant â'i briod, Mrs Jennie Griffith, a'i fab Owen, ei wyres a'i bedwar wŷr a'r teulu oll yn y brofedigaeth sydyn a'u goddiweddodd yn ddiweddar — colli priod, tad a thaid tyner.

Yn y fro hon y magwyd y ddau fab, Owen a'r diweddar Gwyn, y ddau wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail.

Cysgod y nef fo dros och fel teulu.

**DIOLCH:** Dymuna Mrs Ceinwen Roberts ddiolch am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed.

**BEDYDD:** Pnawn Sul, Mehefin 17, yng Nghapel Tan-y-Coed, bedyddiwyd Emma Wyn, merch Gary ac Elwena, Bro Rhyddallt, Llanrug, gan y Parch John Morris. **ADREF O'R YSBYTY:** Gwellhad buan i Kelly Roberts, Gwelfryn, ar ôl dod adref o'r ysbyty.

## GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I  
GAERNARFON,  
BANGOR AC  
YMHELLACH  
HEFO DILLAD I  
BOB OED A  
MAINT YMA'N  
LLANBERIS AM  
BRISIAU BAR-  
GEN ?

Be ga i'n bresant?  
Dewch yma am  
\* Ddillad Merched  
\* Dillad Dynion  
\* Dillad Plant  
\* Dillad Gwlad  
\* Mohair ac Aran  
\* Dillad Lledr  
\* Dillad Isa  
\* 'Accessories' fel bagiau  
\* a llawer mwy

CYNNIG  
ARBENNIG



Yn rhatach os  
dangoswch yr  
hysbyseb hon

**GALWCH I BRYNU BARGEN!**

## E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI



# CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

## PLANT YSGOL FEITHRIN CWM Y GLO



**YSGOL FEITHRIN:** Hoffem estyn croeso i Anti Ann o Lanrug sydd wedi ymuno â ni i edrych ar ôl Drew. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

Llongyfarchiadau i'r plant am wneud 'collage' erbyn Eisteddfod yr Urdd. Roeddent wedi gwneud gwaith da iawn am y Tylluanod.

Mae 8 o blant yn ein gadael ddiwedd y tymor i ddechrau'r ysgol ym mis Medi. Hoffem ddymuno'n dda iddynt.

Os oes plentyn yng Nghwm-y-Glo neu Brynrefail sy'n 2½ cyn mis Medi ac eisiau dechrau'r Ysgol Feithrin, a wnewch roi eu henwau nawr os gwelwch yn dda.

Byddwn yn cynnal Noson Goffi a Sioe Ffasiwn gan S. Q. Knitwear, Cwmyglo a Glad Rags, Llanberis, nos Fawrth, Gorffennaf 3 am 7.30. Mynediad £1, plant 50c.

Tocynnau i'w cael oddi wrth y mamau neu wrth y drws. Bydd gwobr am y rhif lwcus ar y tocyn.

Bydd y trip eleni yn mynd i Sŵ Bae Colwyn ar ddydd Iau, Mehefin 28.

**DIOLCH:** Dymuna Carys Williams, Bryn, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd.

**GWELLHAD BUAN:** Dymunwn wellhad llwyr a buan i Miss E. Hughes, Tan-y-graig, ar ôl triniaeth i'w llygaid ac i Mr Geraint Pritchard, Bryn Difyr ar ôl ei ddamwain.

**CYDYMDEIMLAD:** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Nellie Pritchard, 23 Dôl Afon yn ei phrofedigaeth o gollu ei chwaer.

**DIOLCH:** Ar ôl dosbarthu'r Eco ar hyd y Stryd Fawr mae Miss E. Hughes, Tan-y-Graig yn rhoi'r gorau i'r gwaith. Dymunwn ddiolch o galon iddi am ei gwaith ar hyd y blynyddedd, a dymunwn ddiolch i Mrs Linda Parry, Glandŵr, sydd am ymgymeryd â'r gwaith.

**YN YR YSBYTY:** Dymunwn wellhad buan i Mr J. Phillips

Diolch i bawb a fu mor hael yn rhoi defnydd i ni ar gyfer gwneud dilladau i Basiant y Plant yn Jamborî Glynllifon. Mae cypyrddau dillad llawer i dŷ yn llawer iawn gwacach a ninnau a'r plant yn gyfoethocach o'r hanner. Diolch hefyd i Mrs Jones, Mrs Williams a Mrs Shaw am eu cymorth parod ac i Mrs Jones y Goflawr am ofalu dod â pheiriant gwnïo i ni i wneud y gwaith. Bu eraill yn helpu efo trafniadaeth ac mae'n diolch ni yr un mor ddiffuant iddyn nhw.

Welsoch chi'r pasiant ar y bocsy? Toedd hogia'r ardal yn gwneud gwaith da, 'dwch? Mi oedd Mam wedi mopio'n lân efo nhw — a doedd hi ddim yn nabod yr un ohonynt!

Erbyn hyn, mae Anti Margaret yn ôl wrth ei gwaith ganol dydd ac Anti Marjorie yn cael seibiant haeddiedig. Diolch yn fawr am eich cymwynas Mrs Roberts a galwch i fewn i'n gweld.

Cyflwynodd pedwar o fechgyn, Martin, Tony, Bryn a David, sic o £35 i Tenovus, yn dilyn y Disgo a drefnwyd ganddynt. Cymaint oedd y mwynhad ynddo — mae rhai o'r rhieni wedi trefnu un arall ar nos Wener, Gorffennaf 13. Peidiwch â bod yn ofergoelus — dewch i ddawnsio!

Bu plant Safon 4 yn Ysgol Brynrefail am ddiwrnod yn ymgynffino â'r lle, ac allan o saith ohonynt — dim ond un sydd am aros yma efo ni y flwyddyn nesa'. Dyna mae hi'n ddweud ar hyn o bryd — ond fe gawn ni weld ym mis Medi, 'te.

Llongyfarchiadau i bawb ar eu perfformiadau yn y Gala Nofio, Mabalgampau'r Urdd a Chystadleuaeth Criced. Cafodd pawb hwyl arbennig o dda a sawl un yn dod yn ôl wedi blasu llwyddiant.

Cafodd Donna a Sara Salisbury amser difyr yn Llwyngwril hefyd, yn dysgu gwyllo 'Neighbours' a 'Home and Away' a rhyw fymryn o chwarae'r cello!

Cyn mynd, ga' i eich atgoffa am Fabalgampau'r Pentref ar y cae Chwarae ar y 7fed o Orffennaf. Cofiwch ymarfer — bydd rhywbeth ar gyfer pawb yno a chofiwch weddio am haul eleni — nid fel y lllynedd.

'Dw i am dawelu rwan, ond fel mae'r amlen yn cael ei chau, daeth newydd fod Martin Parry wedi ennill cystadleuaeth sgwennu jôcs yn un o gylchgronau'r Urdd. Da iawn Martin.

Dyma gau pen y mwdwl rwan a meddwl am yr holl gyfoeth o ffrindiau sydd ganddom. Maent yn llawer mwy gwerthfawr nac aur ac yn donic go iawn i ni pan fyddwn eu hangen. Am bob cymwynas, diolch o galon.

O.N. Gyda llaw, mae Mrs Rita Williams yn rhy swil i ddweud wrthym faint oedd ei hoed ar Fehefin 10, ond gobeithio iddi gael penblwydd hapus iawn, fel ag y gwnaeth Mrs Jones ychydig ynghynt. Mae pawb pwysig yn cael penblwydd ym Mehefin — gan gynnwys y wraig. Rhaid i mi ei gluo hi i'r siop i chwilio am anrheg iddi neu mi fyddaf y baw isa'n y doman! Hwyl fawr. O.N. i'r O.N: Gan na fydd rhifyn arall tan fis Medi — pob hwyl dros wyliau'r Haf. Cofiwch anfon cerdyn!

### Y Gala Nofio

Ar ddydd Iau, Mehefin 7, roedd y gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Yr oedd y rhan fwyaf o Safon 2, 3 a 4 yno. Ail oedd y wobwr orau gafodd yr ysgol a Kevin Williams gafodd honno. Aeth pawb adref yn hapus wedi mwynhau eu hunain.

Diolch i Mrs Parry, Mrs Price a'r Parch J. Morris am fynd yno efo ni. ROBERT SHAW

### Chwarae Criced

Aeth Tim Criced Ysgol Gymuned Cwm y Glo i Fangor i chwarae criced ar gae y Coleg Normal. Diolch i mam Martin am fynd a ni yno a thad David am ddod a ni adref. Yn y gemau, cawsom ddwy gem dda. Y gyntaf oedd yn erbyn Y Borth, ond colli ddaru ni. Yr oedd yr ail yn erbyn Llanddona a Cwm gurodd honno. Y sgôr oedd cant a naw deg un i Landdona a dau gant a phum deg tri i Gwm y Glo. GLYN PRICE

### Mabalgampau'r Urdd

Aeth tîm athletwyr Ysgol Gymuned Cwm y Glo i Fabalgampau'r Urdd yng Nghaernarfon efo cymorth llawer o rieni. Bu pawb yn cystadlu yn galed. Daeth Paul yn ail yn y Taflu Pêl a bydd yn mynd i Fabalgampau'r Sir ym Mangor. BETHAN HUGHES

### Llwyngwril

Aeth Sara a Donna i Llwyngwril efo Mrs Jan Barnes. Buont yn aros yn y Tŷ Wyn am ddwy noson efo plant o Benisarwaun, Cymerau a Maes-incla. Yr oedd pawb yn cymryd eu twrn i olchi llestri a gosod y byrddau. Yr oeddynt yn gorfod chwarae'r cello bron drwy'r dydd yno ond ar ôl te yr oedd pawb yn cael ffonio adref!

SARA SALISBURY A DONNA

**Mwy o newyddion munud ola':** Derbyniwyd llythyr o Swyddfa Blue Peter yn llongyfarch Sara Salisbury a Martin Parry ar eu hymdrech mewn cystadleuaeth Animeiddio Ffilm. Yn anffodus, nid y nhw enillodd y wobwr gyntaf o £1000 ond cawsant ganmoliaeth mawr am baratoi Bwrdd Stori ar gyfer ffilm o 'Hanes y Creu o Lyfr Genesis'.

Mae cael gwobr gysur allan o 10,000 oedd wedi mentro yn dangos eu bod wedi gwneud gwaith da a chan fod gymaint o bobl y cyfryngau a byd teledu wedi mentro yng Nghaernarfon — ella bydd swydd i'r ddau yno yn y dyfodol. Gwylwch allan am eu henwau ar y 'credits' ymhen rhyw ddeng mlynedd!

FIDEO  
FIDEO  
FIDEO

Gwasanaeth Fideo  
Proffesiynol

JOHN BLIGHT  
LLANBERIS  
872209

Priodasau a phob  
achlysur arbennig arall  
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi  
a Gwasanaeth newid  
CINE I FIDEO

CEFNOGWCH EIN  
HYSBYSEBWYR

(Johnny Phil), Groeslon, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

**CLWB POBL Y CWM:** Ar Fai 31 cafwyd p'nawn difyr yng nghwmni ein cyd-aelod, Mr R. H. Parry. Bu'n sôn am gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Cyn ei alw i fyny yn swyddogol, penderfynodd ymuno â'r Awyrlu, gan ddwyn i gof sut a pha le y gwasanaethodd amryw eraill o fechgyn y Cwm.

Wedi cyfnod yn Lloegr, anfonwyd Mr Parry i Singapore, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'r rhyfel, yn gymharol ddi-berygl, hyd nes bu raid dianc cyn i'r Siapaniaid ei oresgyn. Er ambell ddeigwyddiad peryglus, cafodd ddychwelyd yn ddiogel a dianaf, a ninnau wedi mwynhau edrych yn ôl yn ei gwmini.

Diolchodd y Llywydd, Mr Llew Jones i Mr Parry. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Mair Williams.

Ar Fehefin 14, un arall o'n haelodau fu'n ein diddanu y tro hwn, sef Mrs K. Watkins. Dro'n ôl, bu hi a thair arall (yn cynnwys Miss E. Hughes) ar daith wyliau hynod o ddiddorol, a thrwy gymorth sleidiau, cawsom ninnau eu dilyn drwy Madrid, Portiwgal a Lisbon, Gibraltar, Morocco, Sbaen a Tangiers. Cawsom gyd-chwerthin â hwy am y troeon trwstan, a chyd-ryfeddu a dotio at y gwahanol ryfeddodau. Diolchodd y Llywydd i Mrs Watkins.

Hyfryd oedd gweld Mrs Eluned Hughes a Miss Elizabeth Hughes yn ôl yn ein mysg, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gofalwyr y baned a'r raffl oedd Mrs M. Parry a Mrs G. Pritchard. Enillydd y raffl oedd Mrs E. M. Jones.

### YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO

Pan mae rhywun yn gweld faint o ffrindiau sydd ganddo fo — mae rhywun yn gweld pa mor lwcus ydi o.

Mae gan yr ysgol yma lawer iawn o ffrindiau ac mae llith y mis yma yn dechrau efo gair o ddiolch iddyn nhw.



# Agor Ffiniau'r Gorffennol

## YMWELIAD Â'R YSGOL GYNRADD

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Fel hen athrawes, cefais wahoddiad i fynd i'r Ysgol Gynradd yn Llanrug gan Miss Lynch i ddweud fy hanes yn Ysgol Bryn Eryr pan oeddwn yn ieuanc. Yr oedd hynny rhyw bedwar ugain mlynedd yn ôl. 'Rwy'n diolch i Mr Roberts y Prifathro ac hefyd i Miss Lynch, Dirprwy Brifathrawes. Yr oedd yr ymweliad yn hyfrydwch i mi ac hefyd i'r plant. Anfonodd pob plentyn i ddiolch i mi, ond nid oes gennyf le yn fy ngholofn i roi llythyrau'r plant yn gyflawn gan fod ugain ohonynt. Caiff llythyr Bethan ymddangos fel y derbynias ef, ond rhannau yn unig ellir roi o'r llythyrau eraill. Diolch yn fawr iawn i'r plant i gyd. Edrychaf ymlaen at ymweliad eto i ddweud hanes y ddau geffyl.

Ysgol Gynradd Llanrug,  
Caernarfon,  
Gwynedd.  
Dydd Mercher, Mai 2, 1990.

### Os Gwelwch yn Dda

Annwyl Mrs Williams,  
Rydym i gyd wedi mwynhau eich bod wedi dwad yma. Diolch yn fawr iawn a dowch yma eto os gwelwch yn dda a dweud stori wrtha ni. Roeddwn yn eich hoffi yn canu a dweud hanes Deio Bach ac yn sôn am ddyddiau'r ysgol yn Bryn Eryr.

Yr oedd tair geneth yn absennol, sef Delyth, Gwennan ac Elen. Ond mae nhw wedi mwynhau clywed yr hanes ar y record sydd wedi ei gadw gan Miss Lynch, ond welson nhw mohonoch. Biti. Yr oeddym ni yn lwcus yn eich clywed a'ch gweld. Mi fydda innau yn hoffi'r ysgol yr un fath a chwi. Y mae'r Aniseed Drops yn dal i gael eu gwerthu yny siopau a mi rydw innau yn eu hoffi hefyd. Mae mam a dad hefyd yn eu hoffi. Yr oedd Miss Lynch hefyd yn hoffi'r hanes.

Cofion Gorau,  
BETHAN.

### Hwyl yn yr Ysgol

Rydym ni wedi cael hwyl yn clywed eich hanes yn yr ysgol pan yn hogan fach. Rydym yn gobethio y dowch eto i ddweud stori wrthym am y ddau geffyl. CHERYL.

### Eu Torri yn Bedwar

Rydym ni yn ddiolchgar iawn eich bod wedi dod i'r ysgol i ddweud yr holl straeon pan oeddych yn fach. Un dda oedd yr hanes am dorri un Aniseed Drop yn bedwar darn. IOAN.

### Cadw fy Addewid

Diolch am ddod atom. Yr ydw i wedi cadw fy addewid. Yr wyf yn hoffi'r ysgol. Roedd y gân am Deio Bach yn dda. Gwelais chwi yn Capel Mawr, Llanrug. GARETH W. ROBERTS.

### Y Clocsiau

Yr oeddym yn meddwl eich bod yn lwcus mewn un ffordd ac yn anlwcus mewn ffordd arall. Yr oeddych yn lwcus yn cael medal am gadw'r ysgol a'r holl bethau eraill ond yn anlwcus yn cael slap hefo'r gansen. Yr oeddych yn gwisgo clocsiau i ddwad i'r ysgol. GARETH HUGHES.

### Y Tro Nesa

Diolch am ddod atom bore Llun. Yr ydw i yn edrach ymlaen at y tro nesa a chael clywed y stori am y ddau geffyl fel yr oedda chi wedi ei chlywed yn eneth fach. Mi hoffwn innau gael medal hefyd, ac oriawr. IEUAN GREEN.

### Eich Cwmni

Yr oeddym i gyd yn Safon 3 yn hoffi cael eich cwmni a chael clywed hanes yr ysgol erystalwm, ac hefyd yn edrych ymlaen at gael clywed mwy o hanesion. CHRISTOPHER PRICHARD

### Gweld yr hen Ysgol

Yr oeddem ni wedi cymeryd llawer o sylw ohonoch a beth oedda chi yn ddweud. Rhyw ddiwrnod yr ydym am fynd i weld yr hen ysgol. Diolch yn fawr iawn ar ein rhan i gyd. JAMIE LOUISE SCASE.

### Y Llaeth Enwyn

Yn Safon 2 cawsom drïo llaeth enwyn ond doedd neb bron yn ei hoffi. Cawsom hwyl yn gwrando ar hanesion erystalwm ac yn edrach ymlaen i chi ddwad eto. Diolch yn fawr. SIÂN WYN DAVIES.

### Hanesion Diddorol

Diolch am yr hanesion diddorol a gawsom am yr ysgol lle'r oedda chi yn mynd. Yr oedd yn wahanol iawn i heddiw. Yr oeddym yn hoffi clywed y gân Deio Bach. GEMMA MURPHY.

### Eich Dyddiau Ysgol

Mae pawb yn diolch i chi am ddwad i siarad am eich dyddiau ysgol a sôn am sgwennu ar lechan las gyda carreg nâdd. Yr wyf yn edrach ymlaen at glywed stori y ddau geffyl. OWAIN.

### Y Bin yn Disgyn

Mae'r Dosbarth yn dal i sôn am yr hanesion. Yr oeddym yn hoffi gwrando yr hanes am y bin yn disgyn a'r cyntaf i'w chlywed i godi ei law. A dyna pawb yn rhoi eu dwylo i fyny a chwithau yn chwerthin yn iawn gan fod pawb wedi clywed y bin. Yr oedd raid bod yn dawel os oeddych am glywed y bin. MARK OWEN.

### Y Chwilen Ddu

Yr oedd yr hanes am yr hogyn yn dwad a Chwilen Ddu i'r Ysgol pan oedda chi yn athrawes yn Penisarwaen yn lle dwad a chwilen glust yn y bocs bach yn ddiddorol iawn. Yr ydw i yn hoffi'r ysgol bob dydd rwan ac yn edrach ymlaen i gael hanes y ddau geffyl, Sambo a Ned. DEWI.

### Diolchgar

Yr ydw i yn ddiolchgar am gael clywed yr hanes pan oeddech chi yn yr ysgol ac hefyd yr oeddwn yn lecio clywed y canu. GARY.

### Clwt a Phoeryn

Ar ran Dosbarth 3 i gyd, diolch i chi am ddwad i siarad gyda ni. Diolch am ddweud llawer o bethau wrthym fel sôn am lanhau eich llechen gyda darn o glwt a phoeryn neu lawes eich côt. GETHIN ROBERTS

### Y Cwestiwn Rhyfedd

Yr oeddym yn hoffi eich straeon i gyd ac yn enwedig y cwestiwn rhyfedd faint o'r gloch mae trên un yn gadael stesion Cwmyglo. Yr inspector ddaru ofyn y cwestiwn i'r plant. Yr ateb oedd un o'r gloch wrth gwrs. Hoffwn gael mwy o straeon. IEUAN.

### Y Clocsiau

Yr oeddych yn dweud wrth y plant mai clocsiau oeddech yn wisgo i fynd i'r ysgol a gwisgo esgidiau i fynd i'r capel Dydd Sul. Botymau oedd yn cau eich esgidiau.

Diolch yn fawr am ddwad a'r fedal a gawsoch am gadw'r ysgol am dair blynedd heb ei golli i ni gael ei gweld. Yr oeddych yn cael oriawr am gadw pum mlynedd. LLINOS.

### Bryn Eryr

Yr oedd hanes am Ysgol Bryn Eryr yn ddifyr iawn a diolch yn fawr i chwi. Brysiwch yma eto. DANIEL PARRY.


### Y Ci Mawr

Y mae gennyf gi mawr o'r enw Shena. Dowbyman ydi hi. Yr wyf yn edrach ymlaen i glywed y stori am y ddau geffyl. MARTIN PRITCHARD.

### Y Ddimai

Diolch yn fawr i chi am ddod i Safon 3 i gael sgwrs am eich bywyd yn fach. Yr oedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arnoch yn dweud y byddech chwi a'ch chwaer Megan yn cael dimai gan ddyn y car llefrith pan fyddai eich mam yn talu am lefrith bob mis. Yr oedd yr hanes amdanoch yn athrawes yn Llandwrog a mynd a'r plant i lan y mor yn ddifyr iawn hefyd. LYNWEN.

## BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques  
Ivy Cottage  
BETHEL

Ffôn:  
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da  
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**Bistro**

43-45 STRYD  
FAWR  
LLANBERIS  
Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

**Bistro Bach**

Y MAES  
CAERNARFON  
Ffôn: 673075



CURIAD CALON CYMRU



# NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871 457).

## YMRYSOŶ CŴN DEFAID NANT PERIS



O'r chwith: John Pritchard, Mr R. Evans (Llywydd), John Closs a Dafydd Th. Pritchard.

YMRYSOŶ CŴN DEFAID: Gwenodd yr haul eto eleni ar Ymyrson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch a chafwyd y treialon gorau eto.

Gwelwyd tair merch yn cystadlu, un ohonynt yn wreiddiol o'r Unol Daleithiau, a'r dynion ifanc yn enill y mwyafrif o'r gwobrau.

Aeth y tlysau lleol bron i gyd i ddau frawd lleol, Dafydd a John Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris, ac enillodd John Closs, Llanberis, Diws Cwmni Tithebaron am yr ail flwyddyn yn olynol. Enillydd y Dosbarth Agored oedd mab ifanc o Rosmeirch, Ynys Môn.

Dyma'r canlyniadau:

### Dosbarth Agored, Cwpan Morris

**Bros:** 1, R. V. Hughes, Rhosmeirch gyda Moss; 2, Elwyn Griffith, Waunfawr (Roy); 3, Alan Jones, Pontllyfni (Jess); 4, Mick Lee, Pentraeth (Moss); 5, J. Lightfoot, Llandegla (Jaff); 6, Alan Jones, Pontllyfni (Lad); 7 (Cyfartal), Norman Davies, Penmachno (Wag) a Elwyn Griffith, Pwllheli (Glen); 8, Selwyn Jones, Ffestiniog (Meg).

### Ail Ddosbarth, Cwpan Wavell

**Roberts:** 1, J. Lightfoot, Llandegla (Fly); 2, Elwyn Griffith, Waunfawr (Roy); 3, J. G. Jones, Waunfawr (Sian); 4, Ifor Jones, Rhualt (Rex); 5, Lligwy Davies, Llanerchymedd (Cap); 6, J. G. Jones, Waunfawr (Glen).

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (Y gorau lleol yn y Dosbarthiadau

Agored / Ail Ddosbarth) gan: John N. Pritchard, Nant Peris.

### Dosbarth Lleol, Cwpan Gwesty

**Dolbadarn:** 1, Dafydd Pritchard, Nant Peris (Roy); 2, John Morgan, Bethel (Meg); 3, Michael Williams, Cwm y Glo (Roy); 4, Huw Morgan, Bethel (B.A.); 5, John Closs, Llanberis (Dot); 6, Brian Owen, Nant Peris (Spot).

Enillwyd y Gwpan F.M.C. i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed gan R. V. Hughes, Rhosmeirch gyda Moss.

Enillwyd Cwpan R. Williams, Mynytho, i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed (lleol) gan Dafydd Pritchard, Nant Peris, gyda Roy.

Enillwyd Tlws Cwmni Tithebaron (Gorau dros 50 oed lleol) gan John Closs.

Enillwyr y rafflau oedd: Wendy, 4 Bro Rhyddallt, Llanrug (£100); Dr D. P. White, 1 Tai'r Felin, Y Felinheli (£50); Selwyn Morris, Bakery (£25); Rita Owen, Crud yr awel, Llanberis (Addurn); Iris, Pant yr Einiog, Clynnog (Chwisgi); Len (hwyaden); Gwyn Jones, Rhiw, 53 Eleanor Street, Caernarfon (Fodca); Eryl, 7 Tanybont, Llanrug (Fodca); R. O. Jones, Tŷ Coch, Betws Garmon (Tocyn trin gwallt); Watkins, Police, Caernarfon (Tocyn Prynu Cig); Carwyn Price, Vulcan, Deiniolen (Lager).

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am

eu cefnogaeth.

**DIOLCHIADAU:** Dymuna Mrs Elizabeth Closs Roberts, 3 Tan-y-Bryn, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis,

ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 89 oed ar Mehefin 8.

## ATGOFION AM BATRI

Ar yr ail ar hugain o fis Mai, gwelsom dynnu i lawr hen dai gwag ac adfeiliedig rhan uchaf y Batri; go brin bod pentref yng Nghymru a rhan ohono yn ael ei alw yn Batri, nid felly Deiniolen. Adwaenir y rhan ddwyreiniol o'r pentref, yr 'East End' fel petai, yn Batri — pwy all ddehongli ei darddiad a'i ystyr.

Cofiwn am bedair rhes o dai bychain a'u talcen i'r ffordd, a dwy arall yn cyd-redeg â wal derfyn Caradog. Eu henwau, a dechrau gyda'r rhai a ddymchwelwyd yn ddiweddar, oedd Tai Castell, Jarvis St., Baptist St., Tai Gerddi — methais a chael enw y ddwy arall lle yr honnir bod llety i gael ynddynt am rôl (lodgin grôt).

O'r holl dai oedd yma, Jarvis St. yw'r unig un a erys, wedi ei hadnewyddu ac o dan enw newydd sef Tegfryn.

Bu poblogaeth luosog iawn yn byw yma a chymeridau doniol a lliwgar yn eu mysg. Maent wedi gwasgaru i bedwar ban byd ers blynnyddoedd a nifer fawr ohonynt yn huno yn y ddwy fynwent.

Gwelsom adeiladu a thynnu i lawr yma o'r blaen. Cofiwn am Joni Huws o deulu lluosog Caxton House gynt yn codi garej i gadw'r bysus. Cofiwn amdano yn cychwyn gyda Ffordyn bach, wedyn un bŷs, yn ddiweddarach tri, ac amrywiol a niferus fu y gyrwyr a'r casglwyr tocynnau a gyflogid ganddo i wasanaethu o Ddinorwig i Bangor. Ymhen amser fe ymddeolodd a gwerthwyd y busnes i'r Cwmni Porffor, Bethesda, a gwerthfawr fu eu gwasanaeth hwythau i'r ardal a'i thrigolion di-gar. Er hynny, Bysus Joni Huws y'u galwyd hyd y diwedd, ac fel y cofiwch dibenodd y bysus Porffor

a dymchwelwyd y garej.

Beth arall a gofiwn am Batri? Yng ngwaelod Batri y cynhelir ocsiynau ar linoliym, oil-cloth, llestri a chelfi tŷ, ar nos Wener cyfri mawr y chwarel, o dan do cynfas i'r arwerthwr a lampau nwy yn bytheirio i bob cyfeiriad yn y gwynt. Fe erys hyd heddiw yn nhai yr ardal lestri te ac aml i lestr defnyddiol o dan y gwely a brynwyd yn rhad flynyddoedd maith yn ôl yn Ocsiwn Batri.

Beth arall a gofiwn yma? Ia, siop bwtsiar. Fe ddeuai Dafydd Jôs a'i gar a'r merlyn du, â chig o siop Bwtsiar mawr y Borth (Porthaethwy) bob pnawn Sadwrn, eira, glaw neu hindda, ac yn Batri yr arhosai am tua dwy awr, wedyn paned yn un o dai Castell, ac ymlaen wedyn i ben draw Dinorwig. A miwsig i'r glust fyddai clywed y car a'r merlyn tua unarddeg y nos yn dychwelyd ar garlam trwy'r pentref yn ôl am y Borth a tân yn fflachio o'i bedolau a'r ddwy lamp gannwyll yn olau yn y gaeaf.

'Hiraethus yw'r atgofion am

Batri

I hen drigolion prin Gwaun Gynfi.'

Sylwer ar y darlun o'r tai a ddymchwelwyd yn ddiweddar, a rhai o blant Batri o flaen Rhes y Faenol. Tynnwyd hwn oddeutu trigain mlynedd yn ôl.

H. J.



Rhan o'r brif heol a rhai o'r tai a ddymchwelwyd.

## CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant o'r gronfa uchod.

Anfoner am y manylion a'r ffurflenni cais at: **Aled Owen**  
**13 Charlotte Street, Llanberis**

DYDDIAD CAU: AWST 31AIN

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243



# LLANBERIS

Gohebwy: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn 870491

CLWB CANT: Enillwyr Clwb Cant Ysgol Dolbadarn am fis Mehefin oedd: 1, John Pike, Rhif 37 — £25; 2, Annette Roberts, Rhif 20 — £15; 3, Maxine Roberts, Rhif 111 — £10.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Mrs Enid Lloyd Roberts ar fod yn hen nain am yr unfed gwaith ar ddeg ar enedigaeth merch fach, Elin, i Alun ac Eirian yng Nghaernarfon.

DIOLCH: Dymuna Glenda Jones, 7 Cambrian Terrace, ddiolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau ac arian ar achlysur ei phenblwydd yn 21 oed.

DIOLCH: Dymuna Menna Jones, 6 Well Street, ddiolch yn fawr iawn i'r plant, teulu a chymdogion am yr anrhegion a'r blodau a gafodd ar achlysur ei phenblwydd yn 65 oed.

Diolch hefyd i Jean a Graham, Prince of Wales Hotel am y wledd.

DIOLCH: Dymuna Mr Llew Williams, Jean a Miriam a theulu'r ddiweddar Mrs Maggie E. Williams, 4 Eryri Terrace, Porthmadog, (Cae Esgob, Llanberis gynt), ddiolch o galon i'r llu cyfeillion a ddaeth i'r angladd yn Nant Peris. Diolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd i ni. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, llythyrau a rhoddion a dderbyniwyd. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar Fai 31 dan arweiniad Mrs Hannah Jones.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol.

Rhoddwyd croeso cynnes i Mrs Sue Love oedd wedi dod â phlanhigion i'w dangos i ni, a threuliwyd gweddill y noson yn cael gwybod-aeth sut i drin ac edrych ar ôl y planhigion. Cyn diwedd y cyfarfod, cawsom gwis gan Mrs Love ar wahanol fathau o flodau a phlanhigion. Mrs Betty Jones gafodd y marciau uchaf, a chafodd pob aelod blanhigyn i fynd gartref.

Diolchwyd i Mrs Love gan Mrs Betty Jones a Mrs Dwynwen Roberts.

Y gwestwragedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs Dilys Phillips a Mrs Glenys Jones yn cynorthwyo.

Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Jones.

DIOLCH: Hoffwn, trwy gyfrwng yr Eco ddatgan fy ngwerthfawrogiad i'm teulu a'm cyfeillion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ataf ar achlysur fy mhenblwydd yn 21 oed. Diolch am y cardiau a'r anrhegion. **Catrin, Plastirion.**

## RHOIDDION

£10: Mrs Katie Arthur Jones a Mr Ieuan Roberts, Elan Bank, Siliwen Road.

£5: Rhodd ddi-enw o'r Waunfawr; Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dolafon, Cwmyglo; Mrs Menna Byrne, Llanfilo; Mr a Mrs O. R. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Mr Llew Williams a'r teulu, 4 Eryri Terrace, Porthmadog.

£3: Di-enw o Ynys Môn; Mrs Betty Roberts, 26 Rhydfadog, Deiniolen; Mr a Mrs Harry Griffiths, Llys Helen, Waunfawr.

£2: Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Glenda Jones, 7 Cambrian Terrace, Llanberis; Mr a Mrs J. Williams, 1 Bro Deiniol, Deiniolen; Mrs M. Jones, 2 Bro Deiniol, Deiniolen; Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; Bet a Len, Lyndale, Llanrug; Di-enw, Bethel.

£1: Mrs N. Owen, Rhydfadog, Deiniolen.

## COFIO GWEITHWYR 'NICACO'



Gweithwyr y 'Nicaco' Llanberis adeg yr Ail Ryfel Byd. Anfonwyd y llun i'r Eco (trwy law Dilys Baylis, Llanberis) gan Mrs Eileen Wrenn o Surrey. Gŵr Mrs Wrenn yw'r trydydd o'r dde yn yr ail res.

# BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Felinheli 670 726)

EISTEDDFOD YR URDD Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990: Roedd yn braf gweld y pentref wedi ei addurno mor ddeniadol i groesawu plant Cymru i'r ardal i Eisteddfod yr Urdd. Hoffai'r Pwyllgor Apêl lleol ddiolch yn fawr iawn i'r busnesau lleol canlynol a gyfrannodd tuag at gost y fflagiau — Garej Minffordd, Y Bedol, Siop Sglodion a Mr Sam Jones, Cefn.

Llongyfarchiadau mawr i'r côr dan 12 oed ar gyrraedd llwyfan y Genedlaethol ac am ganu mor dda yn y gystadleuaeth. Diolch i Mrs Glenys GRiffith am ei gwaith yn hyfforddi'r côr. Cafodd y côr wobwr o £50 i'w wario ar y Gangen.

Llongyfarchiadau hefyd i bawb o'r pentref fu yn cystadlu yn yr Eisteddfod ac i blant Safon 3 a 4 ar eu rhan ym Mhasiant y Plant. YR URDD: Bu 15 o blant y gangen yn bwrw'r Sul yng Ngwersyll yr Urdd yng NGLanllyn ar Fehefin 15-17. Roedd pawb wedi blino yn lân ond hefyd wedi mwynhau eu hunain yn arw. Diolch i Miss Bethan Evans am gadw llygad ar y plant yng NGLanllyn.

Llongyfarchiadau i aelodau'r gangen ar eu llwyddiant ym Mabolganmpau'r Cylch yn ddiweddar. Bydd y canlynol yn cynrychioli'r gangen ym Mabolganmpau'r Sir ar yr 2il o Orffennaf: Dan 12 oed — Bethan

Fôn Jones; dan 13 oed — Julie Owen, Lisa Owen, Llinos Rees, Gwenan Elis, Llinos Morris a Sioned Hughes; dan 15 oed — Clare Williams.

Cynhelir taith gerdded flynyddol y Gangen Nos Wener, Gorffennaf 6. Bydd y bws yn cychwyn o'r ysgol am 6.30.

WYTHNOS GARNIFAL Y NEUADD Mae Pwyllgor y Neuadd wedi penderfynu cynnal wythnos o weithgareddau i godi arian tuag at y Neuadd o'r 16 i'r 21 o Orffennaf. Mae'r trefniadau fel a ganlyn:

Nos Lun, 16 Gorff — Peldroed 5 bob ochr; nos Fawrth, 17 Gorff — Helfa Drysor; nos Fercher, 18 Gorff — Chwaraeon; nos Iau, 19 Gorff — Ffair Haf a Bingo; nos Wener, 20 Gorff — Disgo; Dydd Sadwrn, 21 Gorff — Carnifal.

LLONGYFARCHIADAU i Ceri Hughes, Bron Gwynedd ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ar Orffennaf 17.

LLONGYFARCHIADAU i Eiriona Jones, 7 Bro Rhos a Mr Gwilym Williams, 2 Bro Wyled, Rhostryfan ar eu priodas ar Fai 26. Dymunir pob hapusrwydd i'r ddau.

CYDYMDEIMLO: Dydd Sul, Mehefin 3, bu farw Mr Ifor Morris, Arosfa. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth. MERCHED Y WAWR: Yn ystod y daith ddirgel dewiswyd

**WELDIO OFFER FFERM  
A PHEIRIANNAU  
DIWYDIANNOL  
GWNEUD GIATIAU,  
FFENSYS AC ATI  
AR GYFER Y CARTREF  
ATGYWEIRIO TAI  
GWAIR  
E. PUGH  
WELDING &  
FABRICATING  
32 GLANFFYNNON  
LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 5394**

## W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR  
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr  
Nwy  
Cofrestedig  
Corgi



Aelod o'r  
Association of  
Plumbing and  
Mechanical  
Services  
Contractors



Dim un dasg rhy fychan  
Dim un dasg rhy fawr

+

**J.M.  
JONES  
A'I FEIBION  
GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU**

## Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol,  
Cerrig o bob  
math ar gael.

Ffôn:  
**Caernarfon 2898  
(dydd)  
Caernarfon 76285  
(nos)**

## Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen  
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau  
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30  
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm  
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn ordor i'ch cartref  
yn ardal Llanrug.



swyddogion newydd ar gyfer tymor 90/91. Dewiswyd Mrs Nan Rowlands yn Llywydd, Mrs Jenifer Roberts yn Is-lywydd gyda Mrs Meinir Roberts yn ysgrifennydd a Mrs Gwyneth Jones yn drysorydd.

Diolchwyd i swyddogion a phwyllgor 89/90 am eu gwaith ac am drefnu rhaglen mor llwyddiannus.

**LLONGYFARCHIADAU** i Dewi Jones, Cenarth, ar ei berfformiad yn nhim Cymru ym Mhencampwriaeth Pysgota Plu i'r Anabl, a gynhaliwyd ar Lyn Rutland yn Lloegr yn ddiweddar. Daeth y tîm yn ail i Loegr, dim ond hanner owns ar ôl.

**LLONGYFARCHIADAU** i Gerallt Jones, Bwlch y Gwynt, ar ei lwyddiant mewn rasmus beics yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Yn dilyn ei lwyddiant dewiswyd Gerallt yn aelod o dim Cymru fydd yn cystadlu yn yr Iwerddon yn ystod yr Haf.

**DIOLCHIADAU:** Dymuna Mr a Mrs W. Parry, 11 Tan y Buarth ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl ym marwolaeth sydyn Mrs Parry, Bryn Llwyd, Rhosbodruall.

### ADRODD YM MÔN



Parti Adrodd Bethel a ddaeth yn Gyntaf dan 12 yn Eisteddfod Môn: Caryl Owen, Delyth Michael, Eleri Robinson, Fiona Lambercht, Louise Druce a Lowri Williams.

### TÎM NOFIO'R YSGOL GYNRADD

Ar y dde mae tîm nofio Ysgol Bethel a ddaeth yn ail yn y Gala Nofio i ysgolion gyda dros 100 o blant.

**DIOLCH I BAWB O FETHEL AM BLYGU'R RHIFYN HWN**

## ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da  
★ Cwmni da



## CÔR ADRAN LLWYDDIANNUS



Côr Adran Bentref Bethel, gyda'u harweinyddes Mrs Glenys Griffiths, a enillodd y 3ydd wobwr yn y gystadleuaeth i Adrannau Pentref dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

### PIANYDD 'ANRHYDEDDUS'



Elen Wyn Salisbury a gymerodd ran mewn Cyngerdd Arbennig yn Neuadd Powys C.P.G.C. Bangor yn dilyn ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano Gradd 1 gydag anrhydedd.

### MEITHRIN PARCH



Mae'r ysgol wedi mabwysiadu y llain tir o flaen yr ysgol, a Chanolfan Garddio Seint wedi noddi'r plant gyda rhodd o blanhigion. Y syniad yw ceisio meithrin parch at yr amgylchedd o fewn y pentref. Yn y llun mae Irfon Jones, Richard Pugh, Glyn Davidson a Richard Davies yn plannu'r llwyni a'r planhigion.



## BEICIO NODDEDIG



Gethin Williams a reidiodd ei feic o Gaernarfon i Pant Glas i gasglu arian tuag at y 'Gweledydd' ar ran Capel Saron, Bethel.

## CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG 'ECO'R WYDDFA'

Nos Iau, Gorff. 5 am 7.00 o'r gloch  
SEFYDLIAD COFFA  
LLANRUG

Croeso cynnes i bawb â diddordeb

## BRYN (B & K Williams)

Hen Ysgol  
Glanmoelyn

**LLANRUG**  
Ffôn 77482 (dydd)  
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

# TAC SIS BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

**Ffôn: (93)670555**



# AR DÂN DROS HAWLIAU'R LLEIAFRIFOEDD

Un o ddyletswyddau papur fel yr 'Eco' yw tynnu sylw darllenwyr at y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan drigolion y fro dros eu cyd-ddyn. Un o'r rheini, yn ddiamau, yw Eifion Cullen, gŵr ifanc cryf ei argyhoeddiad, o Lanrug.

Fis Tachwedd diwethaf, ar ôl hir drafod gyda'i ffrind Bryn Roberts o Geunant, sefydlwyd cangen gyntaf Cymru o Survival International. Erbyn hyn mae naw aelod ar y pwyllgor ac maent yn amrywio o safbwynt galwedigaethau ac oedran (rhwng 19 a 45). Cynhaliant eu cyfarfodydd yn lleol bob bythefnos.

Eifion yw'r cadeirydd ac mae yn fodlon iawn ar y gwaith a gyflawnodd y pwyllgor hyd yma ac ar y cyhoedduswydd y mae wedi ei roi i achos Survival International.

Trefnwyd cyngerdd pop llwyddiannus iawn yng Nghaernarfon yn y gwanwyn a chafodd sylw'r cyfryngau cenedlaethol. Mae papurau lleol a phobl busnes hefyd wedi rhoi eu cefogaeth mewn amrywiol ffyrdd.

Ar y gweill gan y gangen ar hyn o bryd mae taith 'Diwylliant Roc Cymru' ac maent yn paratoi gwybodaeth am rai achosion y brwydrant drostynt, ar gyfer plant ysgolion lleol.

'Mae'r gwaith trefnu dan lygad barcud Bryn Ceunant' meddai Eifion.

Caiff y gangen ac achos 'Survival International' gefnogaeth hefyd gan Rhys Mwyn a'r grŵp roc Anrhefn.

Ychydig wythnosau yn ôl, efallai i chwi ddarllen yn y wasg leol wythnosol a gweld llun o Eifion wedi clymu ei hun â chadwyni a glud i'r barau haearn y tu allan i Lysgenhadaeth Brasil yn LLundain.

Gwnaeth hyn er tynnu sylw at waith Survival International ym Mrasil ac at achos y dylai'r byd gwâr ei gondemnio a'i atal.

'Rwyf yn teimlo'n gryf iawn,' meddai Eifion 'fod llywodraeth Brasil yn llusgo'i thraed yn achos yr Yanomani.'

Llwyth brodorol sydd yn byw



**GWILYM H. WILLIAMS**  
**BRYN DAIRY**  
**2 BRYNHYFRYD**  
**BETHEL**  
 Ffôn  
**Port Dinorwig 670786**

Llefrith  
 Llaeth Porfa  
 Llaeth heb Hufen  
 Wyau, Tatws  
 Dioddydd  
 Ffrwythau

yng nghoedwigoedd glaw gogledd orllewin Brasil yw'r Yanomani; llwyth o bobl sy'n wynebu difodiant.



Trigant mewn pentref crwn a elwir yn Yano. Gall tua 400 ohonynt fyw mewn un o'r rhain, bob teulu gyda'i dân ei hun. Cadwant y tanau hyn ynghyn ddydd a nos. Mae i bob teulu hefyd ei dir ei hun a byddant yn casglu ffrwythau a mêl o'r coedwigoedd trwchus sy'n eu hamgylchynu. Yn achlysurol, byddant yn hela, a rhoddir bri ar heliwr llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i rannu ymysg ei gilydd a'r ysbryd o gydraddoldeb yn werthoedd sy'n nodweddu cymdeithas yr Yanomani. Er mor syml, ac ar un wedd, cyntefig yw eu bywyd, gallant ddysgu cymdeithasau cymhleth 'gorllewinol' sut i barchu a sut i gyd-fyw mewn cytgorod â'u hamgylchfyd.

'Y pechod mwyaf heddiw,' meddai Eifion 'yw fod 9 o bob 10 o'r Yanomani yn wael eu hiechyd.'

Y prif reswm am hyn yw DATBLYGIAD. Daw estroniaid i'w tiroedd yn anghyfreithlon i

**OSMOND SHAW**  
**DEINIOLEN**

GWERTHU  
 - TRWSIO  
 ★ Teledu  
 ★ Fideo  
 ★ Offer Trydan  
 Gwasanaeth  
 Ffôn 24 awr  
**LLANBERIS 870545**

gloddio am aur; torri'r rhannau helaeth o'r fforestydd a llogir y coed. Defyddir dŵr dan bwysedd yn y broses o gloddio ac mewn dim amser achosir difrod i'r tir sydd heb y gorchudd o goed. Mae'r glawogydd trwm yn y rhan hon o'r byd yn ychwanegu at y problemau — yn troi tiroedd eang yn foroedd o fwd.

Daw y mwyngloddwyr estron (45,000 ohonynt) â'u hafiechydon gyda hwy ac nid oes gan yr Yanomani wrthwynebiad corfforol i bethau fel fflw, malaria a'r frech goch. Y canlyniad yw fod nifer ohonynt yn marw o'r afiechydon hyn.



Dyma rhai o'r problemau eraill:

— Mae'r arian byw a arllwysir i'r afonydd fel canlyniad i'r mwyngloddio yn lladd pysgod ac yn difetha'r cyflenwad dŵr.

— Yn ôl un o gylchgronau Survival International mae rhai mwyngloddwyr yn euog o saethu rhai o blant yr Yanomani.

— Nifer yr anifeiliaid y mae'r brodorion yn dibynnu arnynt am



eu cynhaliath wedi lleihau yn sylweddol oherwydd mwyngloddio a rhagor o hela arnynt.

— Mae byd yr Yanomani wedi ei wyrdroi. Yn hytrach na chynhyrchu eu bwyd eu hunain maent yn gorfod cardota. Mae eu holl ffordd o fyw wedi ei thanseilio ac maent wedi colli eu hunan barch.

Meddai Eifion: 'Mater bach fyddai achub yr Yanomani, pe byddai llywodraeth Brasil yn rhoi deddf tir iddynt a hel y mwyngloddwyr oddi yno. Mae amser yn rhedeg allan ar yr Yanomani. Mae'n rhaid i ryw beth gael ei wneud yn weddol fuan.'

Os ydych am ragor o wybodaeth, ysgrifennwch at Sharon Jones, Gwynfryn, Ceunant, Llanrug, LL55 4RY.

1		2		3		4		5		6		7
8						9						
10		11								12		
13								14	15			
							16					
17				18								19
20								21		22		
23								24				

## AR DRAWS

- Fframwaith corff (7)
- Ymwelwyr â Llanfairyllin (5)
- Drama gerddorol (5)
- Ymrwymo i briodi (7)
- Cymdeithas y Cenhedloedd Prydeinig (9)
- Mur (3)
- Ystafell fach ar gyfer cadw bwyd (5)
- Rhaid cropian cyn cerdded (6)
- Bevan (3)
- Haeddiant (9)
- Ofni'n fawr (7)
- Mae un gan bawb a dau gan rai (5)
- Y cyflwr o fod heb gyfoeth (5)
- Proffwydo (7)

## I LAWR

- Heini (5)
- Meddai (3)
- Un o'r wyth mewn tîm rygbi (7)
- Trefnu (6)
- Anifeiliaid sy'n chwarae rygbi (5)
- Dilyn a dal (9)
- Ddim eisiau gweithio (7)
- Gweld cyfle i elwa (9)
- Eglur (7)
- Pantycelyn, Eben Fardd, e.e. (7)
- Yn unig (3,3)
- Ponciau tywod (5)
- Pwrpas, neu heb ben! (5)
- Gwrth-ddywediad (3)

Cofiwch mai un llythyren yw ch. dd. ff. ng. ll. ph. rh. th.



Enillwyr cystadleuaeth mis Mehefin yw: Emma Davies, Hafan, Gallt y Bont, Waunfawr; Bethan Roberts, Stryd Ceunant, Llanberis; Awen Humphreys, Rhoslan, Llanrug; Owain Parry, Nant y Glyn, LLanrug.  
**LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH PEDWAR!!**

Diolch hefyd i: John Paul, Bro Glyder, Nant Peris.	Siân Lewis, Penpwlloch, Penisarwaun.
Daniel Fletcher, Ysgol Tan-y-Coed.	Wena Williams, Ysgol Tan-y-Coed.
Rowan, Ysgol Tan-y-Coed.	Gavin Thomas, Ysgol Tan-y-Coed.
Lynne Kimberly Jones, Ysgol Tan-y-Coed.	

**CYSTADLEUAETH MIS GORFFENNAF**

ENW .....

CYFEIRIAD .....

.....

.....

OED.....

**LLIWIWCH Y LLUN**





# ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO'R  
LLIWIAU PRIODOL

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS



## CORNEL Y PLANT

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi a fu'n cystadlu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon yn diweddar.

Roedd yr holl ymarferion a'r gwaith caled werth chweil wedi'r cwbl yn doedd blant? Da iawn chwi wir!

Dyma waith merch fach o Lanrug a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth rhyddiaith dan 8 oed. Llongyfarchiadau mawn i ti Awen. Mae'n stori fach hyfryd.

### Y FFERM RYFEDD

Roedd rhywbeth rhyfedd wedi digwydd ar fferm Cae Glas. Roedd popeth wedi troi o chwith. Yn lle brefu 'roedd Sali y fuwch goch yn gwehyru a Ceri y ceffyl yn brefu. Roedd gan y ieir ffwr yn lle plu ac roeddent yn rhoi llefrith bob dydd i'r ffermwr. Ac 'roedd y ci yn chwibianu ar y ffermwr i roi y defaid yn y gorlan. 'Roedd Fflwffen y gath yn hoffi caws a'r llygoden yn yfed llefrith y gath o'r soser!

Dyn rhyfedd oedd y ffermwr hefyd. Roedd o yn rhoi creision a thost allan i'r defaid a'r anifeiliaid eraill hefyd. Pob dydd roedd o yn bwyta ceirch.

Roedd ei wraig yn hoffi pobl y teledu yn fawr, a dywedodd 'Buaswn yn hoffi i ddynton y camera ddwad yma i ffilmio ein fferm ryfedd ni'.

Un diwrnod daeth pobl y teledu i Fferm Cae Glas a daeth llawer yno i wyllo. Gofynnodd y ffermwr i ddynton y camera: 'Gymerwch chi ddioid o lefrith a wŷ wedi ei ferwi?'

'Na, na, dim diolch yn fawr' atebodd y dyn ac i ffwrdd ag ef a'r bobl pwysig heb gymryd diod na thamaid o fwyd!

Chafodd neb weld yr anifeiliaid ar fferm ryfedd Cae Glas.

Awen Haf Humphreys

## CORNEL JÔCS

Beth sy'n dod allan o'r peiriant golchi ar dymheredd o 100°C? Trowsus Poeth!!

Beth sy'n binc, yn grebachlyd ac sy'n eiddo i nain? Taid!


Beth sy â chwe choes, pedwar llygad a chynffon? Marchog a'i geffyl!

Be' ma' Ffrancwr yn fwyta i frecwast? Huit heures bix!!! (Weetabix — ha ha!)

Be 'di hoff fwyd ysbryd? Spwccetti!!

Beth sy' â phedair ar hugain o goesau, sy'n felyn ac sy'n canu? Dwsin o ganeris!

## EWCH O DDOT I DDOT







Plant a rhieni Ysgol Tanycoed, Penisarwaun ar strydoedd Caernarfon. Llundwrw garedigrwydd Arwyn Roberts.

## PROBLEMAU YN EIN HYSGOLION

**Uchod:** Plant a rhieni Penisarwaun wedi eu cythruddo ac yn gorymdeithio drwy strydoedd Caernarfon i wrthdystio y tu allan i'r Swyddfa Addysg.

**Chwith:** Llundwrw arall o'r difrod a adawodd rhywrai ar eu hól yn Ysgol Brynrefail.

(Parhad o'r dudalen flaen)

rhagolygon cynnar er fod yna sail pendant i honiad y Prifathro a'r rhieni fod y rhifau diweddar yn dangos yn glir y gellid hawlio 2.8 athro yn ôl y fformiwla a fyddai'n cyfateb i dri athro llawn.

Gobeithia Cyfeillion Tan-y-Coed, gyda chymorth a chefnogaeth rhieni ac unigolion led led Gwynedd ddarbwyllo'r Awdurdod cyn iddynt gymeryd yr hyn a ystyrir yn gamau cyntaf tuag at gau llawer o ddrwsau ein hysgolion bychan gwledig.

Un o'r rhieni

### CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

### STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID PRITCHARD**  
CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR 291  
Hefyd ail-osod carpedi

## Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NII!



# Dyddiadur y Mis

## GORFFENNAF

1. **Sul** Cymanfa Ganu Henaduriaeth Arfon yng nghapel Berea, Bangor, 6.00 o'r gloch.

DEINIOLEN: Capel Ebeneser, Cymanfa Ganu, 8.00.

2. **Llun**: Mabolgampau Rhanbarth yr Urdd ar gaeau'r Coleg Normal, Bangor. DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

3. **Mawrth**: DEINIOLEN: Undeb y Mamau, 7.00; LLANBERIS: Antur Padarn yn Angorfa, 7.00; CWMYGLO: Yr Ysgol Feithrin - Noson Goffi, 7.30.

5. **Iau**: BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chwiorydd.

6. **Gwener**: LLANBERIS: Te yr Henoed; DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00; BRYNREFAIL: Trip Dirgel Capel M.C.; BETHEL: Yr Urdd - Taith Gerdded.

7. **Sadwrn**: DEINIOLEN: Carnifal; PENISARWAUN: Trip yr Ysgol Sul i Rhyl yn cychwyn am 9.30; CWMYGLO: Mabolgampau'r pentref ar y Cae Chwarae; LLANRUG: Capel Mawr - Trip yr Ysgol Sul.

13. **Gwener**: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00; CWMYGLO: Disgo.

14. **Sadwrn**: WAUNFAWR: Antur Waunfawr, Barbeciw, a bydd Wali yno.

16. **Llun**: BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched, Barbeciw; BETHEL: Wythnos Garnifal - Peldroed 5 bob ochr.

17. **Mawrth**: BETHEL: Helfa Drysor; DEINIOLEN: Merched y Wawr - Trip.

18. **Mercher**: BETHEL: Chwaraeon.

19. **Iau**: BETHEL: Ffair Haf a Bingo;

20. **Gwener**: LLANBERIS: Te yr Henoed; DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00; BETHEL: Disgo; CAERNARFON: Darlledu rhaglen 'Codi Cwestiwn' o Stiwdio Barcud.

21. **Sadwrn**: BETHEL: Carnifal.

24. **Mawrth**: PENISARWAUN: Clwb y Heulwen - Trip Dirgel.

27. **Gwener**: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

30. **Llun**: LLANRUG: Tombola yn Ystafell y band.

**Cofiwch anfon rhaglen neu ddyddiadau cyfarfodydd eich mudiadau a'ch cymdeithasau ar gyfer tymor y gaeaf i drefnydd Dyddiadur yr Eco.**

## DAWNSWYR LLANRUG



Dawnsywyr Gwerin Llanrug a ddaeth yn ail yn Eisteddfod yr Urdd dan 15 oed, ac yn gyntaf yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar. Buont hefyd yn perfformio gyda Dafydd Iwan ac Ar Lôg mewn cyngerdd yng Ngŵyl Cricieth. Ar y dde yn y llun mae Gwenan Roberts a ddaeth yn ail ar yr unawd llinynol dan 15 yn Eisteddfod yr Urdd.

## 'ANTUR PADARN' — gwaith i'r fro

(parhad o dudalen 3)

gennych yw eich barn, eich gwybodaeth, a phum munud o'ch amser. Fydd creu gwaith ddim yn hawdd ond y mae'n rhaid i ni gychwyn, ac yr ydym am gychwyn gyda chi, y rhai agosa' atom.

**Felly, pan ddaw mis Medi cofiwch lenwi'r holiadur, yna dewch i'n cyfarfodydd cyhoeddus pan fyddwn yn eu cynnal. Cyfrannwch eich syniadau, cefnogwch Antur Padarn a'ch pen a'ch braich a'ch calon, er mwyn eich cymuned.**

Os am fwy o fanylion yna cysylltwch â Glyn Tomos, Pen-y-Bwlch, Dinorwig (Rhif Ffôn: Llanberis 870576).



Y gynulleidfa a ddaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus yn Llanrug i sefydlu Menter Bro.

### COFIWCH

CYFARFOD O  
'ANTUR PADARN'  
ANGORFA, LLANBERIS  
3 GORFFENNAF: 7.00

### PWYSIG

PLYGU'R 'ECO' YM  
MHENISARWAUN  
Nos Iau, 30 AWST

### GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dwr oer  
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio  
cwn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CEFNOGWCH  
EIN  
HYSBYSEBWYR

### CHIROPODIST

Gwasanaeth yn  
eich Cartref

**E. Ll. Parry**

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.  
57 Glanffynnon

**LLANRUG**

Ffôn:

**Caernarfon**

**5754**

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A  
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

## PRIF GYNRYCHIOLWYR



**YNG**

**NGWYNEDD**

Perchennog: E.P. Hughes

**MODURDY DOLYDD**

**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**



# GOFALU AM DIR COMIN CYMRU

Mae Wendy Lutley, swyddog maes y Gymdeithas Mannau Agored, yn egluro pam mae tir comin mor arbennig, a beth allwch chi ei wneud i sicrhau gofalu'n iawn am eich comin lleol.

P'un ai ydych chi'n cerdded ar hyd y Carneddau yng Ngwynedd neu'n hamddena ar hyd Afon Gwy ar Chippenham Mead neu lain tref Trefynwy yng Ngwent, rydych chi'n cerdded ar ran werthfawr iawn o Gymru — ei thir comin. Mae naw y cant o dir Cymru yn dir comin: mae'n cynnwys ucheldir maith Bannau Brycheiniog a'r carneddau, arfordir creigiog Tyddewi, corsydd heli Penrhyn Gŵyr a llawer iawn o ddarnau llai.

P'un a ydyn nhw mewn perchnogaeth breifat neu gyhoeddus, mae ar diroedd comin hawliau sy'n eiddo i bobl eraill — y cominwyr. Fel rheol mae'r hawliau hynny — i dorri mawn, casglu coed tân neu bori defaid — yn gysylltiedig â thyddynod a ffermydd cyfagos. Gan nad ydyn nhw wedi eu haredig ers cyn cof, mae tiroedd comin yn hafan werthfawr i fywyd gwylt ac archaeoleg. Mae'r ffiniau hynafol yn rhan bwysig o'n tirwedd. Mae pawb sy'n chwilio am le tawel i ymlacio, ymarfer neu gael awyr iach yn gwerthfawrogi eu cymeriad agored, ac wrth gwrs, gall hawliau pori fod yn hanfodol o hyd i economi llawer fferm fach fynyddig.

Ond o dan y gyfraith ar hyn o bryd, mae tiroedd comin yn agored i gael eu dad-gofrestru, eu datblygu a'u hesgeuluso. A does dim hawl cyfreithiol gan bobl i gerdded ar ddwy ran o dair o dir comin Cymru.

## Cyfraith newydd

Mae'r Gymdeithas Mannau Agored yn arwain ymgyrch am gyfraith newydd i unioni'r sefyllfa hon. Mae'r cynigion sydd wedi eu haddo gan y llywodraeth ac sy'n seiliedig ar argymhellion y Fforwm Tir Comin, yn becyn cynhwysfawr i ddiogelu'n tir comin at y dyfodol.

Bydd mannau gwan yn y ddeddf Cofrestru tir Comin 1965 yn cael eu cryfhau. Bydd yn ddyletswydd ar gynghorau sir weithredu yn erbyn gwaith anghyfreithlon ar dir comin. Caiff cynghorau cymuned y cynnig cyntaf i fod yn berchen ar ardaloedd heb eu hawlio. Ac am

y tro cyntaf caiff y cyhoedd eu cynrychioli ar gymdeithasau rheoli newydd, a fydd yn rheoli'r tir er lles pawb. Ar ôl cyfnod i sefydlu'r system, bydd hawl mynediad i'r cyhoedd ar droed i bob tir comin.

## Gweithredu gan y gymuned

Felly, pam na ddechreuwch chi ar y gwaith drwy ffurfio grŵp cyfeillion neu grŵp rheoli i'ch comin chi! Gallwch ymchwilio i'w hanes, ei fywyd gwylt a'i archaeoleg; trafod rheoli gyda'r perchnogion, y cominwyr a'r cyngor cymuned; helpu gwneud gwaith cadwraeth ac ymgyrchu yn erbyn bygythiadau datblygu.

Mae grwpiau yng Nghymru eisoes yn dangos y ffordd.

\* Mae Cymdeithas Ddinesig Meliden yng Nghlwyd yn ymgyrchu i ddiogelu eu tir comin rhag ffensio anghyfreithlon. Mae Cymdeithas Porwyr Comin a Chominwyr Helygain wedi cyhoeddi llyfryn ar eu tir comin hefyd yng Nghlwyd.

\* Mae Cymdeithas Eglwysilan a Mynydd Mayo wedi trwsio muriau terfyn a gwella llwybrau mynediad i'w tir comin ym Morgannwg Ganol. A gerllaw mae Cyngor Cymuned Pentrych wedi darparu parc ceir bach ar ymyl y ffordd i bobol sy'n ymweld â Chomin y Garth.

\* Yn Nyfed mae pwyllgor rheoli Comin Dowrog, sy'n cynrychioli gwahanol ddiddordebau, yn goruchwyllo rheolaeth y cynefinoedd bywyd gwylt arbennig yno.

\* Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi sefydlu grŵp cyswllt ar gyfer Comin Pen-y-Fâl ym Mharc Cenedlaethol Bannau

Brycheiniog. Ar draws y cwm mae Pwyllgor Diogelu Amgylchedd Mynydd Llanelli a'r Bloreus wedi bod yn ymladd yn erbyn bygythiadau tomen sbwriel.

Fe ddywed ein pecyn gweithredu wrthoch chi beth i'w wneud. Ac mae'r wybodaeth ar gael nawr yn Gymraeg.

Ysgrifennwch at eich AS i bwysu am y gyfraith newydd, ymunwch â'n cymdeithas, a ffurfio grŵp ar gyfer eich comin chi.

Mae'r pecyn gwybodaeth 'Our common village green' ar gael yn Saesneg. Mae'n cynnwys taflenni gwybodaeth am sut i gael gwybodaeth am eich comin, llain werdd neu fan agored arall, sefydlu grŵp a phenderfynu ar y cynlluniau y gallech ymgymryd â nhw; canllaw hawdd i gynhyrchu plan rheoli; a'r llyfryn lliw 'Ein Hawliau Comin' sy'n adrodd stori tir comin. Mae'n costio £3.00 ac yn rhad ac am ddim i aelodau newydd y gymdeithas (£12.00 i unigolion).

Bydd fersiwn fer o'r testun ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn (1990) argraffiad o gronfa ddata cyfrifiadur a Gwasanaeth Cenedlaethol

Gwybodaeth Adnoddau Addysgol (NERIS). Mae dros 200 o ysgolion yng Nghymru wedi eu cysylltu wrth y system NERIS, fel llawer o golegau, canolfannau athrawon a llyfrgelloedd. Yn ogystal â bod yn un o'r adnoddau defnyddiol i athrawon a myfyrwyr, mae'r wybodaeth ar gael yn hawdd i bobol lleol. Cyfieithwyd y testun i'r Gymraeg gan Mary Jones o Dongwynlais ger Caerdydd. Mae'r Swyddfa Gymreig ac Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru wedi cyfrannu at gost y cyfieithu.

Y Gymdeithas Mannau Agored, a sefydlwyd ym 1895, yw corff cadwraeth hynaf Prydain. Mae'n ymgyrchu dros ddiogelu tiroedd comin, lleiniau gwyrdd, mannau agored eraill a llwybrau cyhoeddus — boed y rheini yn y wlad, y dref neu'r ddinas — a hawliau'r cyhoedd i'w mwynhau. Ymhlith yr aelodau mae unigolion, grwpiau amwynder a chynghorau cymuned. Anfonwch am fanylion am aelodaeth a chyhoeddiadau at y Gymdeithas Mannau Agored, 25a Bell Street, Henley-on-Thames, Oxon RG9 2BA, tel: 0491 573535.



**PEIDIWCH A GORI AR STORI!  
RHOWCH HI I'CH  
GOHEBYDD LLEOL**

## CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r  
**Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.**

## Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser  
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff



# DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

ENILLWYR Clwb 200 Peldroed Deiniolen am Fis Mehefin yw: 1, (Rhif 74): Barry Wardle, Pentre Helen (80); 2, (Rhif 152): Tommy Jones, Maes Gwylfa (£40).

Diolch am eich cefnogaeth ar ran y pwyllgor.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd y Cyfrafod Blyneddol mis Mehefin. Rhoddodd y Trysorydd Mrs Marian Williams adroddiad o'r sefyllfa ariannol, ac yna cafwyd braslun o'r gweithgareddau a gafwyd yn ystod y tymor gan Iona Richards, Ysg. Diolchodd Mrs Betty W. Davies i'r tair swyddog am eu gwaith yn ystod y tymor.

Dewiswyd swyddogion ac aelodau o'r pwyllgor am 1990-91 gyda Mrs Nan Jones yn cyfrif y pleidleisiau.

Pasiwyd i gael trip nos Fawrth, Gorffennaf 17.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar Fehefin 4 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y gŵr gwadd sef Mr Colin Hays. Cawsom noson ddifyr gyda Mr Hays yn dangos crefft gwaith coed.

Diolchwyd i Mr Hays gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddywd y tē gan Mrs Glenys Williams a Mrs Eurwen Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs H. J. Thomas a Miss Beti Williams.

Llongyfarchwyd Gareth, mab Mrs Marian Wyn Williams ar ei ddyweddiad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 2 pryd y bydd Mrs Orr, Felinheli, yn dweud hanes yr AGM yn Llundain.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod ar Fai 22 pryd y treuliodd prynhawn difyr yng nghwmni Miss Betty Owen (Bigil gynt). Cawsom ganddi hanes ei gyrfa fel nyrs, bydwaig, ac yna Ymwelydd lechyd ym Mhwllheli. Diolchwyd iddi gan Mrs Megan P. Morris a Mrs Elen Williams.

Gwesteion y te oedd Mrs O. R. Williams, Mrs Aileen M. Jones a Miss Eileen Williams. Rhoddwyd y raffl gan Miss Eileen Williams ac fe'i enillwyd gan Mrs Laura Williams.

Yr oeddem fel clwb yn falch o weld Mrs Ellen Williams yn ôl gyda

ni ar ôl ei damwain ac hefyd Mrs Mary Hughes. fe garem fel Clwb ddiolch i Mr Robert T. Jones, Rhydfadog, am ei haelioni tuag atom.

Ar Fehefin 5 dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones cawsom brynhawn difyr iawn gyda phlant Ysgol Feithrin Deiniolen yn ein diddori, o dan ofal Mrs Nest Evans, Mrs Valmai Williams a Mrs Elan Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Jennie E. Williams, Mrs Jennie Cashman a Mrs Jennie Williams. Yn ogystal cawsom Fara Brith, a theisennau cri trwy garedigrwyd y dair chwaer oedd yn gofalu am y plant.

Rhoddywd y raffl gan Mrs Jennie E. Williams a'r enillydd oedd Miss Jean Moeller.

Llongyfrachwyd Mrs Pat Evans am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth ym Mhabell y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd, a derbyn Tocyn Llyfr fel gwobr. Diolch hefyd i Mrs Alice M. Griffith, Dinorwig, am ei haelioni tuag atom. Diolchwyd i bawb gan Mrs Megan P. Morris.

DIOLCH: Dymuna Mrs Maggie Jones, 3 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri, ac ar ôl dod adref.

DIOLCH: Dymuna Mr O. R. Williams (Dinorwig gynt), 29 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu a'i gyfeillion am eu caredigrwyd iddo ym mhob modd tra y bu yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.

Diolch hefyd i'r Meddyg a'r staff, Ward Peris, Ysbyty Eryri, am eu holl ofal ohono.

DIOLCH: Dymuna Mrs M. Jones, 2, Bro Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am yr anrhegion a'r cardiau a'r arian a dderbyniodd ar yr achlysur o ddatlu ei phenblwydd yn 80 oedd ar Fai 22.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nan Owen, cyn-warden bythynnod Rhydfadog, ddiolch i'r trigolion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei hymddeoliad. Hefyd diolch am y croeso a dderbyniodd pan yn ymweld â hwynt. Diolch hefyd i Mrs Anna Williams a'r Home Helps eraill am eu cefnogaeth yn y

Gwobrwyo y Tim Peldroed Hynaf, Mehefin 6

Tra bo'r gwledydd yn ymladd am Gwpan y Byd Priodol yw i ninnau ddod heno ynghyd I wobrwyo ein pêl-droedwyr nwyfus Ar derfyn eu tymor gweddol lwyddiannus.

Pa ardal all ymffrostio mewn pedwar tîm? Os y gwyddoch rhowch wybod im A hynny, cofiwch, heb gae yn eu hardal, Rhyfeddwn am iddynt wneud cystal.

Gwir nad yw'r tîm o safon Lerpwl Ond mae yma addewid trwy'r cwbl, Heno gallwn ninnau ymhyfydu Bod Malcolm Allen yn chwarae tros Gymru.

A wyddoch chi gyfrinach llwyddiant Lerpwl? Ymarfer, a disgyblaeth manwl Parchu'r swyddogion a'r reffari Herio rhain — cost a gwarth ddaw i chi.

Parchwch chwithau'r pwyllgor a'r swyddogion Ymroddwch o ddifri i wella'ch safon Efallai y tymor nesaf os iach a byw, Gall un ohonoch fod ar lyfrau Man-lw.

A chwithau heno yn derbyn eich cwpan Gresyn oedd clywed am Alun a Dafydd mewn ffwdan Yn cydgyfarfod trwy gamgymeriad yn Stryd y Deon Y ddau wedi archebu dwy set o wobrwyon, Ond diolch i'r drefn, cafodd y broblem ei gwastau Ein dyled yn sicr sydd yn fawr iawn i'r ddau.

H.J.

gwaith.

DIOLCH: Dymuna Betty Roberts, 26 Rhydfadog, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau, hefyd y meddygon a'r staff i gyd yn y clinic, Deiniolen a Llanberis, am y llu cardiau, anrhegion, blodau ac am y caredigrwyd a ddangoswyd tuag ati ym mhentrefi Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun ar ei hymddeoliad o'r Clinic ar ôl 30 o flynyddoedd hapus iawn.

Diolch fil i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Katie Arthur Jones a Mr Ieuan Roberts ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profediaeth o golli chwaer a modryb annwyl — Miss Priscie Roberts, gynt o Glanrhyd Fadog, Deiniolen. Diolch lawer am nifer fawr o lythrau a chardiau a dderbyniwyd, sydd yn rhy niferus i'w cydnabod yn unigol.

Diolch yn arbennig i'r Parch D. Noel Williams a Canon Trefor Jones am y gwasanaeth bythgofiadwy ddydd yr Angladd. Hefyd i'r Ymgwymerwyr H. O. Davies Bangor am eu trefniadau gwych.

Y CARNIFAL: Bydd Wythnos

Garnifal Deiniolen yn cychwyn Nos Sul, Gorffennaf 1 gyda Chymanfa Ganu yng Nghapel Ebeneser am 8 o'r gloch. Cynhelir gwahanol weithgareddau ar hyd yr wythnos yn arwain at y Carnifal ei hun ar Orffennaf 7.

GŴYL GORAWL ERYRI: Cynhaliwyd yr Ŵyl eleni yn Eglwys St. Mair, Y Felinheli, ddydd Sul y Drindod, 10 Mehefin. Llongyfarchwn Hayley Williams o Eglwys Crist, Llandinorwig ar ei llwyddiant yn ennill y darian yn y gystadleuaeth i ddisgyblion Bl. 1 a 2 Ysgolion Uwchradd.

YR ŴYL BREGETHU: Daeth cynulleidfa gref ynghyd i'r Ŵyl bregethu a gynhaliwyd ar ddydd Sul, Mehefin 17. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Peter Pritchard, B.A., Rheithor newydd Plwyfi Llanberis a Llanrug.


Yn eisiau  
Athro / Athrawes i  
**YSGOL FEITHRIN  
DEINIOLEN**  
Cysyllter â Gwyn Parri  
Llanberis 871 330

**IEUAN  
WILLIAMS**  
Glanffrwd  
**DEINIOLEN**  
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CYFLENWYR PORTHIAN  
**IDRIS MORRIS**  
BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES  
GWERTHWYR NWY

Y Fachell  
Llanddeiniolen  
Ffôn:  
Port Dinorwig 670439



Tri o blant Deiniolen a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar.



# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



Bedyddio Manon Glyn, Catrin Glyn ac Elin Mair yng ngwasanaeth Ysgol Sul Bosra.

**YSGOL SUL BOSRA:** Cofiwch am y trip i Rhyl. Mae ychydig o le ar ôl, £3.00 i oedolion, £1.50 i blant, nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Bws yn cychwyn o King am 9.30 a.m., Sadwrn, Gorffennaf 7. Enwau rhag blaen i Elizabeth Jones ac Ann Paterson.

Fore Sul, Mehefin 17 am 11.00 a.m. bedyddiwyd tair chwaer fach yn oedfa'r Ysgol Sul, gan y Parch Philip Barnet.

Roedd plant yr Ysgol Sul wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth a gweld eu ffrindiau bach, Manon Glyn, Catrin Glyn ac Elin Mair, genethod bach Ffion a Derec Roberts, Bryn Eglwys yn cael eu bedyddio. Bydd y Gwasanaeth hwn yn aros yn hir yn y cof i blant yr Ysgol Sul. Diolchir i'r Parch Philip Barnet am wasanaeth hyfryd dros ben, ac i'n swyddogion am wneud y trefniadau.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr a Mrs Leadbitter ar enedigaeth eu mab bychan, Gary.

Ein cyfarchion hefyd i Huw Williams ar gyrraedd ei benblwydd yn 80.

Hyfryd oedd gweld Sioned Williams ac Eurgain Haf yn cyfarch y prif lenorion yn Eisteddfod Nantlle ac Arfon. Fe wnaethoch eich gwaith yn anrhydeddus iawn.

Teimlad braf i Nia Lewis rwy'n siŵr, oedd cael bod yn aelod o'r Ensemble, Deiniolen a gipiodd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Nantlle ac Arfon.

**GWELLHAD:** Y mae nifer o blant a thrigolion y pentref gyda'r frech ier a'r fflw. Brysiwch wella i gyd.

**URDD BENTREF:** Nos Lun, Mehefin 11, bu rhai o'r aelodau ym Mabolgampau'r Sir ar gaeau Syr Hugh Owen. Ni fu llwyddiant, dim ond mwynhad mawr, a dyna sy'n bwysig. Bu 8 o'r aelodau yn treulio penwythnos braf yng Ngwersyll Glanllyn o Mehefin 8-10. Diolchir i Mrs Nant Roberts a Mrs Ann Paterson am edrych yn ofalus ar eu holau.

Bydd rhai yn cynrychioli'r Adran ym Mabolgampau Uwchradd, Gorffennaf 2, ar gaeau y Coleg Normal. Pob hwyl iddynt hwythau hefyd.

**PWYLLGOR NEUADD:** Tynnwyd Clwb Cant Mai yn Llygad yr Haul. Yr enillwyr oedd: 1, Gwilym Jones; 2, Elinor Jones, Bron y Waun; 3, Ann Paterson.

Tynnir Clwb Cant Mehefin yn yr Eisteddfod Bentref, Nos Wener, Mehefin 29.

**PROFEDIGAETH:** Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Helen Owen a'r teulu, Brynhyfryd, o golli brawd o Dalysarn.

Dymuna helen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei phrofedigaeth lem.

**CLWB YR HEULWEN:** Llongyfarchwyd Heulwen a Deiniol Evans, ar enedigaeth Mari.

Roedd pawb yn falch o ddeall fod Charlotte Dickinson yn gwella. Anfonir cofion anwylaf at Mrs Probert o'r Waun, sydd yn yr ysbyty.

Diolchir i Miss Phyllis Ellis am bnawn difyr, bu'n sôn am Ferched Enwog Cymru. Rhoddwyd y te gan Mrs Porter a Mrs K. Williams.

Enillwyd y Raffl gan Mrs Doreen Fisher.

Bydd Trip Dirgel y Clwb yn cychwyn am 11.00 a.m., Gorffennaf 24. Croeso cynnes i rai nad ydynt yn aelodau o'r Clwb. Oedolion £2.50 a £1 i blant. Enwau i Mrs Mary Davies a Mrs Percy Williams.

**EISTEDDFOD BENTREF:** Cynhelir Eisteddfod y Pentref eleni yn Neuadd Eglwys Santes Helen, nos Wener, mehefin 29, i ddechrau am 5.30.

**EGLWYS SANTES HELEN:** Llongyfarchiadau i Sioned Lewis, Penpwllcoch, ar ennill Cwpan Alun Jones yng Ngŵyl Gorawl Eryri eleni, a chanmoliaeth i'r ymgeiswyr eraill o Eglwys Santes Helen am eu gwaith hwythau. Dangoswyd rhywfaint o waith arlunio'r ŵyl ym Mhabell yr Eglwys yng Nghymru ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon.

**PROFEDIGAETH:** Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Mary Davies a'r teulu o golli brawd yng nghyfraith, Tom Davies, Tai Newyddion.

**18 OED:** Pob bendith i Eurgain Haf a Nathan Eagles ar achlysur eu penblwydd yn 18 oed mis Gorffennaf yma.

**GRADDIO:** Llongyfarchiadau mawr i Rheon Larsen ar ennill gradd B. Sc. gydag anrhydedd yng Ngholeg Aberystwyth. Bwriada fynd ymlaen i wneud ei M. Sc.

**YMCHWIL Y CANCR:** Casglwyd £77.66 tuag at y Cancr a dymuna Mrs B. E. Hughes a Mrs Nansi Jones ddiolch i bawb am eu haelioni.

**YSGOL TAN-Y-COED:** Y mae Safon 3 a 4 yn prysur gael eu hyfforddi i reidio'u beiciau yn ofalus ar y ffordd fawr gan Mr Dafydd Edwards. Bnawn Llun, Mehefin 11, cerddodd Safon 1 a 2 yr holl ffordd i'r Gaer ym Mhen Dinas, roeddent wrth eu bodd yn dychmygu'r lle ganrifoedd yn ôl. Yna, bnawn Llun, Mehefin 18 cawsant fynd i'r Gaer Rufeinig yn Segontium; yno mae carreg filltir Rufeinig o Gaer Bythod. Diolchir i Mr Jones am ei groeso ac am y llyfrau gwaith.

Ymwelodd Dosbarth y babanod â Gerddi Seiont, yn dilyn eu cywaith 'tyfu'. Daethant yn ôl i'r Ysgol gyda llond eu hafflau o flodau, planhigion, llyfrau a gwraith. tripiâu 'Cywaith' oedd rhain. Bydd trip yr Ysgol yn mynd i Benmon, Ynys Môn, yng Ngorffennaf.



Dosbarth y Babanod yng Ngerddi Seiont.



Plant Safon 1 a 2 yn y Gaer Rufeinig, Segontium.


## Aled Jones

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Plymio

4 Bryn Eglwys  
**PENISARWAUN**  
Ffôn Llanberis  
**871047**

Am bob math o  
**WYDR** wedi'i  
**DORRI, DDANFON**  
**NEU EI OSOD.**  
cysylltwch â

**Barrys**  
**GLASS**



Camelot,  
**PENISARWAUN**  
Ffôn: Llanberis 871144

Am wasanaeth fframio  
cyflawn - LLUNIAU  
TYSTYSGRIFAU,  
TAPESTRY:-

**ELWYN PRITCHARD**

Fframiwr Lluniau/  
Telynuau Gwynedd

**Parc Padarn**  
**LLANBERIS**

870922 neu Bangor 351427  
cesglir a danfonir i'ch  
cartref os dymunwch

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnio  
**MENAI SEWING**  
**MACHINE CENTRE**  
40 Stryd Fawr  
**PORHTHAETHWY**  
Ffôn: (93) 714043  
neu

**Caernarfon 4520**  
edau, nodwyddau  
ac ati mewn stoc



# WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr.

**MERCHED Y WAWR:** Nos Iau, Mai 24 gyda Irene Roberts yn Llywyddu daeth Mr Geraint Annwyl Williams i roi cyngor inni sut i atal drwg weithredwyr ddod i'n cartrefi. Diolchwyd iddo gan Heulwen Huws.

Rhoddwyd y raffl gan Margaret Owen ac yn ei habsenoldeb ymgymherodd rhai o'r aelodau i wneud y te. Enillydd y raffl oedd Nan H. Roberts.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL:** Nos Fawrth, Mehefin 12, aeth yr aelodau ar eu gwibdaith flynyddol — eleni eto troediwyd erwau Eifionydd yng nghwmni difyr Dyfed Evans. Caed hanes y Lôn Goed, Eifion Wyn, Capel y Beirdd ac amryw o enwogion yr ardal gan y tywysydd hynaws. Ar ddiwedd y daith, eisteddodd bron i hanner cant i bryd tra derbynol yng ngwesty'r Ranch yn Llanystumdwy.

Diolchwyd i'r trefnyddion, sef Stanley Williams a Rol Williams, gan R. Gwynn Davies a diolchwyd hefyd i Mrs Catherine Jones am ei gwasanaeth gyda'r offeryn yng Nghapel y Beirdd.

Bu'r tymor yn llwyddiannus iawn gyda 86 o aelodau, ac edrychir ymlaen at y tymor nesaf sydd yn cychwyn nos Lun, Hydref 29 gyda sgwrs gan y naturiaethwr enwog Ted Breeze Jones. Yn ystod y tymor disgwylir groesawu Y Parch Iorwerth Jones Owen, Dewi Tomos, Robin Williams, Mary Vaughan Jones a Nan Wyn i roi hanes eu arhosiad yn Botswana, yn ogystal a nosweithiau o 'frethyn cartref'.

**CANCER RELIEF MACMILLAN FUND:** Yn dilyn casgliad o dŷ i dy, casglwyd y swm canlynol yn yr ardal: Mrs Pearl Williams, Parc: £18.66; Mrs Katie M. Jones, Gorwel: £46.15; Mrs Ellen Jones, Eryri Wen: £22.80; Mrs Margaret Jones, Grianfryn: £40.90; Miss Ifanwy Rhisiart, Bod Afon: £81.32. Y trefnydd oedd Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt.

Dymuna Mr Paul Kelly, cadeirydd y Pwyllgor a holl aelodau'r pwyllgor ddiolch o galon i'r uchod am eu help ac hefyd i bawb a gyfrannodd mor hael i'r achos teilwng yma.

**CYMORTH CRISTNOGOL:**

Dymuna trefnyddion Cymorth Cristnogol ddiolch i drigolion y pentref am yr arian, sef £225, a gasglwyd yma.

**LLONGYFARCHIADAU** a phob dymuniad da i Euros Wyn, Y Frenni, ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed, ac i Mrs Williams, Dwyfor, ar gyrraedd ei phenblwydd yn 92 mlwydd oed.


**LLONGYFARCHIADAU** i Erica Jones, Ael-y-Bryn ac i Lowri Huws, Argoed, ar gael canmoliaeth i'w gwaith yn Eco'r Wyddfa'r mis diwetha.

**DIOLCH:** gan Siân Rowlands, Ty'n Coed: Dymunaf ddiolch o galon am garedigrwydd a chymorth pobol yr ardal yn ystod fy ngwaeledd y flwyddyn diwethaf. Diolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion a rhoddion ariannol a gefais. Da gennyf ddweud erbyn hyn fy mod wedi cael adferiad llwyr. Diolchaf yn fawr i'm ffrindiau yn enwedig Gillian a Linda, i staff adran Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaernarfon ac i Dŵr Cymru Plc am bopeth. Diolchaf i Bert ac Ann Llanberis am fod yn gymorth i'm rhieni, ac i'r llu o ffrindiau sydd yn rhy niferus i'w henwi. Yn olaf carwn ddiolch i'r teulu a'm dwy nain, ac yn fwyaf oll i Mam a Dad.

**CRONFA'R GANOLFAN:** Dyma restr o enillwyr y Clwb 3000 am fis Mai: 1, (£40): Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; 2, (£25): Mr J. H. Edwards, Annedle; 3, (£10): Mr Alan Addison, Ystorfa Tŷ Newydd. **CYDYMDEIMLO:** Cydymdeimlwn â Mr Elfed Jones, Bryn Menai, yn ei brofedigaeth o golli ei dad, ac â Mrs J. Jones, Cae Adda, ar golli brawd. **YN YR YSBYTY:** Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Rhiain Jones, Stad Tref Eilian, at Mrs Katie Wyn ones, Bron Eifion, Mrs Dilys Williams, Seibiant a Mr Harry Griffith, Llys Helen, sydd yn yr ysbty ar hyn o bryd.

Yn ystod y mis cymerwyd Mrs Griffiths, Llys Helen, Miss Owelda Williams, Fronllwyd, Miss Jennie Jones, Bryn Tirion, Trefor a Mildred Beech, Bronallt, a Mr R. Jones, Y Bwthyn i'r ysbty, ond maent wedi cael dychwelyd adref erbyn hyn.

Mae Mrs A. Evans, Glasfryn, wedi cael dod o'r ysbty ac mae ar hyn o bryd gyda'i merch yn Llanrug. Dymuna Mrs Evans,



Aelodau o adran yr Urdd Waunfawr ddaeth yn fuddugol ym mabolgampau'r cylch a fydd yn mynd i Fangor ar yr ail o Orffennaf i Fabolgampau'r Sir.

ddiolch yn fawr i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbty yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Diolch yn arbennig i'r meddygon teulu, y gwŷr ambiwlans, staff gofal arbennig Ysbyty Gwynedd a Ward Peblig Ysbyty Eryri. Diolch o galon i bawb.

**YR URDD:** Roedd cynrychiolaeth dda o'r adran yn cystadlu ym Mabolgampau Cylch yr Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen, nos Lun, Mehefin 11, a bydd y rhai fu'n llwyddiannus yn cynrychioli'r cylch yn y Mabolgampau Sir sydd i'w cynnal ym Mangor nos Lun, Gorffennaf 2.

Bydd Gerallt Jones yn rhedeg a neidio yn y gystadleuaeth naid hir dan 12 oed; Heledd Elfryn yn rhedeg dan 10 oed; Kevin Davis yn taflu pêl dan 12 oed; Elaine Medi a Deian Elfryn yn rhedeg ac yn neidio yn y naid hir dan 13 oed, a bydd y tîm merched — Heledd, Lowri Edwards, Sioned Jones a Ffiona Davies, yn y gystadleuaeth ras gyfnewid dan 10 oed. Pob lwc ichi ym Mangor.

Diolch i'r rhai fu'n eu paratoi, ac i'r rhieni am ddod i'w cefnogi.

Roedd Dylan, Huw, Mathew, Iwan, Kevin, Llŷr, Gareth a Deian a aeth i Glanllyn am benwythnos wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Gobeithio y caiff Sioned, Lowri, Gwenllian, Hazel ac Elaine yr un mwynhad yn Llangrannog am yr wythnos o Orffennaf yr 20 i'r 27. Diolch i Gwyneth Ellis, Ty'n Llidiart am ofalu am yr hogia, tipyn o waith rwy'n siŵr!!

**LLONGYFARCHIADAU** i'r grŵp Beganifs ar ddod yn ail yn y

gystadleuaeth cân roc wreiddiol dan bump ar hugain oed yn Eisteddfod yr Urdd.

Roedd Rhodri Sion, aelod o'r grŵp yn canu ar y tâp oedd yn agor y rhaglenni teledu o'r Eisteddfod yng Nglynllifon.

Roedd Rhodri, Alaw, Bethan a Leanne yn perfformio yn y ddrama Tair Merch yn Theatr Barcud.

Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt.

**EISTEDDFOD YR URDD:** Dymuna Beryl ddiolch yn fawr iawn i bawb a'i cynorthwyodd ac a roddodd lety a chroeso arbennig i dros 200 o blant yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Mae gair o ddiolch wedi dod o Gaerdydd, Port Talbot, a Chaerfyrddin am y croeso a'r caredigrwydd a gafodd y plant yma.

Diolch i chwi i gyd hefyd yn unigolion ac yn fudiadau am helpu'r Pwyllgor Apêl Lleol i fynd tros ein nôd a chyrraedd y swm o £2,500. Bu'r holl weithgaredd yn werth chweil yn y diwedd gan inni gael Eisteddfod hapus a llwyddiannus.

Dymunwn ninnau ddiolch i Beryl am ei gwaith caled yn goruchwylio'r trefniant llety yn y pentref.

**DIOLCH:** Diolch i Pearl, Ifanwy ac Eirian am ddod i Gwm-y-Glo i blygu'r Eco y mis diwetha.

**CROESO:** Mae llawer o deuluoedd wedi ymgartrefu yn y pentref yn ystod y misoedd diwetha. Croeso iddynt i gyd.

**DAMWAIN:** Mae'n dda deall fod Mrs Hughes, Llys Meredydd, wedi gwella ar ôl cael damwain yn ei chartref.

**LLONGYFARCHIADAU** i Linda, Heli, ar ennill gradd M. Ed.

**SIOP**  
Nwyddau Gardd  
Cynnyrch Cartref  
Crefftwaith



**CANOLFAN GARDDIO**  
Blodau, Grug  
Alpau, Perthi

**ANTUR WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi Meinciau Concridd a Phren  
Cynnal a Chadw Planters Concridd a Phren  
Plannu Coed Corachod

Am waith  
**PEINTIO, ADDURNO**  
a mân atgyweirio oddi mewn  
neu tu allan am bris rhesymol  
cysyllter ag

**ERIC JONES**

17 BRYN TIRION

**PENISARWAUN**

Ffôn: LLANBERIS 872421



YSGOL WAUNFAWR: A dyna hwrlu brli 'Steddod y Urdd drosodd! Diolch byth medda rhai, ond digon fflath yn hysbysu ar y wythnos gyntaf. Yn wir, os mai asesu gwerth y 'Steddod i'r Plant ydan ni, wel, bu'r profiadau a gawsant yn amhrisiadwy. Cafodd cymaint o ddisgyblion y cyfle o fod ynglŷn â phob math o weithgareddau diddorol.

Tra roeddem ni athrawon yn chwysu mewn practis neu yn stiwardio - fe aeth un o'n staff ni yn slei bach Sadwrn cyn y Steddod i Eglwys fach Llanyulger y Bala - a phriodi! Dymunir yn dda i Gareth a'i Brud Sue ar eu priodas a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref yn Llandwrog.

Tydi dydd Llun ddim yn ddiwrnod da i drefnu trip, medda nhw; ond wir bu plant Safon 1, 2 a 3 o amgylch bro'r Eisteddfod o Ryddu i Ddyffryn Nantlle ac i lawr i Glynllifon.

Cawsant amser bendigeidig a'u socian mewn chwedloniaeth o Simdde'r Ddylluan yn Nrws y Coed i Bond y Cim ac anffawed Cilmyn Droned-ddu dram. Roedd Hil'n ddiwrnod braf - ond tydi hi felly bob amser yn Nyffryn Nantlle.

'Sgin i ddim clem' ydy'r hoff ddywediad ar dafod pawb o'r plant ar ôl gweld y Bumed Gainc yn y 'Steddod.

'Clem' ydy enw Sioe deithiol Theatr y Fran Wen sy'n teithio o gwmpas yr Ysgolion y tymor hwn. Sioe 'Whodunnit' ydy hi. Yn wir fe fydd raid i Heddlu Gogledd Cymru wyllo'u hunain, gan fod glas-dditectifs yn bwrw'u prentisiaeth yn ysgol Waun y dyddiau hyn!

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Harry Griffiths, Llys Helen, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn tra bu y ddau yn yr ysbyty. Hefyd dymuna Heulwen eu merch ddiolch o galon i'w chymdogion a'i ffrindiau am y cymorth a gafodd gyda'r plant dros yr adeg anodd yma. Diolch yn fawr.

AR Y TELEDU: Mae Rhys Sion, Pant Teg, wedi cymeriad rhan ar y rhaglen Penwede. Bydd yn ymddangos ar y teledu'n fuan.

ANTUR WAUNFAWR: Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r noson o groeso fu yn y Ganolfan nos Wener, Mehefin 15, - cafwyd noson lwyddiannus iawn.

Cofiwch am y barbiciw ar nos Sadwrn, Gorffennaf 14, pryd y bydd Wali yn dod i ymweld â ni.

MEUAIN YSBYTY: Ar y chweched ar hegain o fis Mehefin, bydd Marc a

Sion, meibion bychan Janet a Peter Greasley, Stad Tŷ Hen yn cael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl, ac yn ystod mis Gorffennaf byddant, gyda'u brawd Dafydd yn cael dod adref i'r Waun. Bydd croeso mawr i'r tri bach gan eu chwaer fawr Beth, taid a nain, John a Grace Dawson, Bro Waun, taid a nain Dave a Gwladys Greasley, Min Afon, hen nain Mrs Gwladys Jones, Tref Eilian, eu teulu, a thrigolion yr ardal.

LLONGYFARCHADAU hefyd i Mr a Mrs R. O. Jones, Y Bwthyn, Stad Croesywaun, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch a Julia, i'w merch Carol a'i gŵr Peter.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs T. A. Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen, ganwyd mab bychan, Hefin, i'w merch Glenys a'i gŵr Roger, brawd bach i Emma.

LLONGYFARCHIADAU: Yn dilyn llwyddiant yn eu haroliadau offerynnol yn ddiweddar, gwahoddwyd Rachael a Gareth Davies, Nant y Mynydd, ac Osian Gwynedd, Nant, i gymeryd rhan yng Nghyngordd y Goreuon ym Mhrifysgol Bangor.

YMRDDEOLIAD: Dymuna Mr Glyn Owen, Glandwr, ddymuno'n dda i'w frawd Mr John Tudor Owen, ac i'w gyfaill Mr Erin Jackson, Trigfa gynt, ar eu hymddediad o'u swyddi - pob dymuniad da i'r ddau ohonynt oddi wrth y pentrefwyr i gyd.

## DRAENOG



Byddwch yn wylidwrs pan fyddwch yn talu ymweliad â gwesty mwyaf y fro - yn arbennig felly wrth ymweld â'r toiled.

Siarad yn uchel ei gloch â ffrind roedd y gŵr lleol dan sylw - person tra phwysig tua'r Swyddfa Addysg 'na hefyd. Roedd un o weithwyr ymroddedig y lle a charwr cerddoriaeth, a feiriadid mor goegly ganddo, yn 'eistedd' drws nesa'!

AR WERTH  
Peiriant Golchi  
Twin Tub (Hotpoint)  
ewn cyflwr da.  
Ddim Gwaeth.  
£50

(Ffon: Llanberis 871 211)

# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DIOLCH: Dymuna Mr John Orwig Jones, Glandwr, ddiolch o galon am y cardiau ac ymweliadau gan gyfeillion a pherthnasau a'i weinidog y Parch John Morris, yn ystod ei waeledd diweddar. Diolch hefyd i staff Ysbyty Llandudno a staff clinic Llanberis. Diolch yn fawr.

CYFARFOD CHWIORYDD CAPEL MC: Cafwyd cyfarfyddiad nos lau, Mehefin 7fed yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Gillian Morris, Meini Gleision. Roedd y myfyrdd dan arweiniad Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed, yn seiliedig ar eiriau'r proffwyd Habacuc 'Safar fy nisgwylfa ac ymsefydlaf ar y tŵr a gwyliaf.' - geiriau sy'n berthnasol i aml addoldy yn dwyn yr enw Disgwylfa a geir yng Nghymru ond yn unigryw i gapel bychan ar Aberteifi a gafodd yr enw 'Watchtower'.

Chaul oedd hwn a godwyd ar ei thraul ei hun gan wraig hynod o dras bonheddig o'r enw Jane Walters a gredai'n gryf yn ail ddyfodiad a theyrnasiad Crist ar y ddaear.

Croesawyd siaradwr gwadd y noson, Mr David G. Ellis, Gweledfa, gan y llywydd. Cafwyd orig adeiladol yn ei gwmi yn trafod ei waith fel uwch Swyddog Prawf ac yn ddiweddar fel Dirprwy Warden Tŷ Newydd - canolfan sefydlwyd y llynedd i droseiddwyr yn aros eu prawf yn y llysoedd. Arroddodd am y pwysigrwydd o gael canolfan gyffelyb yng Ngwynedd a'r dulliau addas a ddefnyddir i ymdrin a phreswylwyr Tŷ Newydd.

Diolchwyd i Mr Ellis gan y llywydd am ei sgwrs ac yn

arbennig am yr ymroddiad llwyr a rydd i'w swydd, gan Mrs Gillian Morris.

Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian a Mrs Gillian Morris.

Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 5 pryd y disgwylir Mr D. C. Thomas, Gorswen, i roi sgwrs am ei waith cymdeithasol yn Noddfa, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Mehefin 11, cafwyd cyfarfod o'r gangen wedi ei drefnu yn arbennig i dderbyn adroddiad gan Mrs Audrey Hasson, cynrychiolydd y sefydliad yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Llundain a gynhaliwyd ar Fehefin 6. Rhoddodd adroddiad cynhwysfawr o'r gweithrediadau mewn dull llawn ffrathineb a fwynhawyd gan bawb.

Roedd y cyfarfod misol nos Lun, Mehefin 18 ar ffurf ymweliad allanol a chroesawyd cynrychiolydd aeth dda ar aelodau gan Mr R. Gwynn Davies ynod Nghanolffan Antur Waunfawr. Rhoddodd sgwrs diddorol am y fenter o sefydlu'r Antur ym Mryn Pistyll ac yn ei gwmi ef a Mr Hywel Roberts, tywyswyd yr aelodau o gwmpas yr adeiladau a'r gerddi. Yn dilyn mwynhawyd pryd blasus ym mwyty Bryn Gwynedd gerllaw.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Gorffennaf 16 ac yn agored i'r ardal. Cofiwch ddod i'r barbiciw yn iard yr Ysgol Bach am 7 o'r gloch. Mae'r tocynnau ar werth gan yr aelodau, pris £1.50.

PLYGU'R ECO: Ein diolch pennaf i Carol Houston, 2 Trem Eilian am ein cynrychioli fel pentrefwyr noson plygu'r Eco mis diwethaf yn Ysgol Gymuned Cwmyglo.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU  
MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS  
Cysylltwch â David Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI  
WAUNFAWR



DEWIS EANG O  
WELYAU SENGL A DWBL  
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'  
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'  
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI  
MEWN STOC - ALLWCH CHI  
FFORDDIO PRYNU O BATHRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:  
WAUNFAWR 291

AR AGOR  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
AR GAU  
SUL,  
MERCHER.

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrsans?  
Dewch at

R. A. OWEN

9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT

DEINIOLLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,  
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,  
Byrddau Plaster, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.



# LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt (Caernarfon 76733)

**MERCHED Y WAWR:** Bu aelodau o'r gangen uchod ar eu gwibdaith flynyddol i gloi tymor 1989-90 ar nos Fawrth, y 12fed o Fehefin.

Aethpwyd yn gyntaf i ymweld â Phorth Meirion; mwynhaodd pawb ei hun yn cerdded o gwmpas yr adeiladau hardd ac yn edrych ar yr olygfa heddychol a'r bae. Aethpwyd ymlaen i Westy Plas Gwyn lle cafwyd swper blasus.

Ar ôl bwyta, llongyfarchodd y llywydd, Mrs Ann Ifans, Mrs Heulwen Evans ar enedigaeth merch fach.

Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu cyfraniad i Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac hefyd i'r rhai fu'n eu dysgu. Diolchwyd hefyd i'r rhai a fu'n helpu yn y babell.

Dymunwyd adferiad buan i Mrs Thomas.

Diolchodd y llywydd i bawb am eu help yn ystod ei thymor fel llywydd, yn arbennig i Mrs Nan Humphreys yr ysgrifenyddes, oedd hefyd yn gorffen ei thymor.

Diolchodd Mrs Menna Williams i'r llywydd a'r ysgrifenyddes am eu gwaith diflino yn ystod eu tymor.

Dymunwyd yn dda i'r swyddogion newydd sef — Llywydd: Mrs Mary Roberts; Is-lywydd: Miss Phyllis Ellis; Ysgrifennydd: Mrs Heulwen Evans; Trysorydd: Mrs Olwen Huws; Is-drysorydd: Mrs Myfanwy Parry.

Gobeithir dewis is-ysgrifennydd yng nghyfarfod mis Medi.

Enillwyr y rafflau oedd: Mrs Mary Parry, Nansi Lovatt a Myfanwy Parry.

**PLAID CYMRU:** Yng nghyfarfod blynyddol y gangen ar nos Fercher, Mehefin 13 etholwyd y Swyddogion a ganlyn ar gyfer tymor 1990-91.

Cadeirydd: Phyllis Ellis; Trysorydd: Gwyndaf Jones; Ysgrifenyddion: Olwen Llywelyn, Nan Humphreys; Ysgrifennydd Aelodaeth: Vera Williams; Trefnydd Clwb Cant: Cliff Williams; Cynrychiolwyr i'r pwyllgor etholaeth: Phyllis Ellis; Olwen Llywelyn; Berwyn Parry Jones.

Cafwyd adroddiad ariannol gan y trysorydd ac adroddiad gan y trefnydd am y Clwb Cant. Gobeithir trefnu noson Caws a Gwin yn ystod yr Haf. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith a'u cefnogaeth i'r holl weithgareddau

yn ystod y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at dymor gweithgar a llewyrchus eto.

**DIOLCH:** Diolch o galon i bawb am gefnogi y noson goffi tuag at 'Menter Fachwen' a gynhaliwyd yn Hafan Elan yn ddiweddar. Diolch i bob un am eu cymorth, ac arian tuag at y noson, hefyd am gael defnyddio Hafan Elan. Yr elw oedd £155.50.

**BEDYDD:** Bore Sul yng nghapel Pontrhythallt, gyda'r Parch John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd Manon Vaughan, plentyn Mr a Mrs Haydn Jones, Talybont.

## Yr Ysgol Gynradd

**GALA NOFIO:** Daeth llwyddiant eleni i dîm nofio'r ysgol. Hwy oedd yn fuddugol i ysgolion o dros 100 o ddisgyblion a daethant a tharian ahrdd yn ôl gyda hwy.

**MABOLGAMPAU URDD Y CYLCH:** Dridiau yn ddiweddarach daeth tariatad hardd arall i'r ysgol. Y tro hwn y mabolgampwyr ddaeth i'r brig. Bydd nifer helaeth o'r plant yn mynd ymlaen i Fabolgampau'r Rhanbarth a gynhelir ar gaeau Coleg y Normal ym Manngor ar yr 2il o Orffennaf.

**GLANLLYN:** Bu 25 o blant Safon 3 a 4 yng ngwersyll yr Urdd Glanllyn dros y bwrw Sul diwethaf. Bu'r tywydd braf yn gymorth mawr iddynt fwynhau eu hunain yn llwyr.



Tim nofio buddugol Ysgol Gynradd Llanrug.

Diolch i Mr Roberts y prifathro, Emyr Williams ac Ian Parry o Ysgol Brynrefail am roi o'u hamser i fynd gyda hwy.

**LLONGYFARCHIADAU** i Catrin Eleri, Safon 4 am ddod yn drydydd yn y ras dull rhydd ym mhencampwriaeth Nofio Gogledd Cymru. Roedd hi hefyd yn aelod o'r tîm ras cyfnewid buddugol. Bydd hi'n mynd i'r Bencampwriaeth Genedlaethol i Gaerdydd yn o fuan. Pob lwc iti yno Catrin!

**EISTEDDFODOL:** Llongyfarchiadau mawr i Rhian Medi Green, Safon 4, ar ddod yn ail ar yr Unawd Bianco dan 12 oed yng Nglynllifon. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn am ei pherfformiad gan y beirniad.

Bu Michelle Roberts, Safon 1 yn llwyddiannus yn Eisteddfod Môn eleni; llongyfarchiadau eto i ti

Michelle.

Braf yw cael diolch a llongyfarch nifer o blant yr ysgol am eu perfformiadau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. I chwi y dawnswyr a gymerodd ran yn y seremonïau cyfarch, ac i blant safon 3 a 4 am eu rhan ym Mhasiant y Plant a fu mor llwyddiannus. Da iawn chi i gyd.

Carem ddiolch i'r rhieni hynny a fu mor barod i gario'r plant i'r ymarferion dawnio. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad a'ch cefnogaeth yn fawr.

**CWMNI:** Cawsom gwmni deg o fyfyrwyr o wlad Freisland unwaith eto eleni. Treuliasant ddiwrnod yn ein plith fel rhan o'u hymweliad wythnosol â Gogledd Cymru.

**CYFARFOD Y CHWIORYDD:** Cynhaliwyd cyfarfod y chworydd yn festri Pontrhythallt pawnsau, Mehefin 21. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs A. Smith, Llechwedd, a llywyddwyd gan Mrs M. Lloyd Williams, Llys Awen, yn absenoldeb Mrs J. Williams, Bod Fair.

Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs W. A. Jones, Dalar Deg, ar farddoniaeth Cynan a T. Rowland Hughes. Diolchwyd iddi gan Mrs C. Williams, Hafan Elan.

Rhoddyd y te gan Mrs W. A. Jones, Dalar Deg a Miss Buddug Williams, Glan Padarn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 19 am 2 o'r gloch.

## EISTEDDFOD LLANRUG

Oherwydd yr ymateb siomedig i'r cystadleuthau llên dros y blynyddoedd diwethaf, penderfynodd pwyllgor yr Eisteddfod newid rhywfaint ar natur y cystadleuthau.

Eleni felly, gwahoddir pawb o Safon 1 i Flwyddyn 5 a 6, sy'n awyddus i gymryd rhan yn y cystadleuthau Rhyddiaith a Barddoniaeth, i'r Ysgol Gynradd ar un noson (heb ei phenodi eto) yn ystod wythnos 23-28 o Fedi rhwng 5 a 9 o'r gloch i gael y testunau ac i aros yna i gyfansoddi. Byddwch angen papur a phin sgwennu.

Wrth gwrs, arbrawf yw hwn ond gobeithiwn y bydd yn fodd i ddenu mwy o gystadleuwyr yn yr adran llên.

**DIOLCH:** Dymuna teulu'r ddiweddar Jimmy Kavanagh, 'Ellan Vannin', Llanrug, ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Apêl Gwynedd 'Hospice at Home'. Cyflwynwyd £300 i'r apêl. Gyda diolch i bawb am eu caredigrwydd.



Amrywiol dalentau'r Ysgol — Rhian Green, Michelle Roberts a Catrin Eleri.

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**  
**YSGOL YRRU**  
**OFALUS**

- \* Gwasanaeth 7 diwrnod
- \* O ddrws i ddrws
- \* Control Deuol

**D L**

**PRITCHARD**  
**43 Glanffynnon**  
**LLANRUG**  
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran  
Drafnidiaeth

*Joelas*

**CARTREF YR HENOED**

Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig  
Cysylltwch â

Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas

**Ffordd yr Orsaf, Lanrug,**  
**Caernarfon (0286)4652**



# CLWB FFERMWYR IFANC

Mae'r ffermwyr ieuainc wedi gorffen am eu toriad haf yn awr, ond oherwydd tri llwyddiant yn ddiweddar mae'n rhaid i rhai aelodau gyfarfod yn rheolaidd.

Bu un dyddiad arbennig yng nghalendr y clwb cyn iddo orffen, sef Y Rali. Y Rali yw uchafbwynt Ffermwyr Ieuainc ac mae pob clwb yn gweithio drwy'r flwyddyn tuag at yr un diwrnod hwn. y flwyddyn yma, ar Fai 26 y cynhaliwyd y Rali a hynny ar fferm 'Y Felin', Llannor. Roedd Clwb Caernarfon wedi gweithio yn galed cyn y diwrnod mewn gwahanol gystadleuthau er mwyn cael rhywfaint o farciau i fynd gyda hwy i'r Rali, e.e. cystadleuthau barnu gwartheg, defaid a chystadleuaeth chwaraeon. Y gystadleuaeth gyntaf ar y rhaglen oedd y Llyfr Lloffion. Gwen Jones oedd yn gyfrifol am hwn ac fe ddaeth yn ail.

Y gystadleuaeth nesaf oedd 'gwneud poster yn hysbysebu y Sioe Frenhinol Gymreig'. Robin Warrington oedd yn cystadlu yn hon ac fe ddaeth yn 4ydd. Nia Lyn Jones oedd yn cystadlu yn y gystadleuaeth HTV, gwneud tegau meddal ar y thema stori draddodiadol neu hwiangerdd, ac fe ddaeth yn 2il.

Yn y gystadleuaeth barnu gwartheg duon, fe ddaeth Eurwyn Jones yn 2il yn ei adran ef, ac hefyd fe gafodd 3ydd yn y gystadleuaeth barnu wŷn.

Pedwerydd gafodd Aled Jones yn y gystadleuaeth cneifio dan 18. Cystadleuaeth newydd i'r sir oedd Lwc Mwnci. Bu'r tîm yn llwyddiannus iawn gyda Bethan Jones yn cael 3ydd dan 16 a Gail Warrington yn 1af dan 16.

Cystadleuaeth newydd arall oedd y gystadleuaeth adnabod defaid ac unwaith eto fe ddaeth y tîm yn 2il.

Tudur Parry a Sioned Parry oedd yn coginio bocs o nwyddau, ac roedd y ddau wedi gwirioni'n lan pan glywsant eu bod wedi cael 1af.

Dau o aelodau ieuengaf y clwb ddaeth a'r llwyddiant nesaf yn y gystadleuaeth barnu gwartheg tew cigyddion. Daeth Rhys Morgan yn 3ydd dan 16 a Dafydd Philips yn 4ydd dan 18.

Cystadleuaeth ddiddorol bob blwyddyn yw gwisgo Arweinydd y Clwb mewn dillad ffansi, y thema'r flwyddyn yma oedd cymeriad o bantomeim. Gwisgwyd Myfanwy Jones gan Ruth Parry a Bethan Jones fel 'Sneezy' o'r 'Seven Dwarfs', ac fe ddaethant yn 1af.

Daeth y tîm oedd yn cymeryd rhan yn y ras rwystrau i fechgyn yn 3ydd, a'r genethod oedd yn hyrwyddo'r Clwb yn arddull 'Cheerleaders' Americanaidd yn 4ydd.



Cystadleuaeth 'lân' bob blwyddyn yw'r ymladd gobennydd dros ddŵr, ac roedd Robin Warrington yn lân wedi iddo gael 3ydd.

Roedd y clwb wedi bod yn paratoi ers wythnosau ar gyfer y gystadleuaeth ras rafft. Roedd y gystadleuaeth wedi ei rhannu i ddwy ran: 1, themau, gwisg i gyd-fynd a'r themau a'r ymddangosiad; 2, Ras. Daeth y tîm yn 1af yn rhan 1 ac yn 4ydd yn rhan 2.

Cystadleuaeth arall oedd y clwb wedi bod yn gweithio yn galed tuag ati oedd y dawnsio gwerin, ac fe dalodd y gwaith yn ôl drwy i'r tîm gael 1af.

Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus iawn o'r bore hyd nos, gan i dair cystadleuaeth, sef coginio bocs o nwyddau, ras rafft a hefyd y dawnsio gwerin, y cafodd y clwb gyntaf ynddynt, fod yn gystadleuaeth oedd yn mynd i'r Sioe Frenhinol Gymreig, ac felly maent yn mynd i gynrychioli'r sir yn y fan honno. Dyma'r rheswm pam mae yn rhaid i'r clwb gyfrafod unwaith eto.

Roedd y Clwb yn awyddus iawn i glywed pa safle oeddynt, wedi i'r holl farciau gael ei casglu. Gwirionodd pawb pan glywsant eu bod wedi cael 2il, a hwythau yn un o'r clybiau lleiaf yn y sir.

Ond nid dim ond y safle sydd yn bwysig, mae'r nifer o gwpanau a thariannau hefyd. Cafodd y clwb 5 y flwyddyn yma: Tarian Ynys yr Arch am ennill y gystadleuaeth dawnsio gwerin; Tarian Goffa Arwyn Evans, Garth Hebog, am

ennill y mwyaf o farciau yng nghystadleuaeth chwaraeon y bechgyn; Cwpan yr adran ieuengaf am gael y mwyaf o farciau yn yr adran ieuengaf; Cwpan Gwynedd Tractors am gael y mwyaf o farciau o'r chwe clwb lleiaf.; 'Tarian Brwdfrydedd' rhodd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ynghyd â siec o £50 am gael y mwyaf o farciau Rali yn ôl cyfartaledd aelodaeth.

Ar y 5ed o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb. Yn y cyfarfod hwn mae'n rhaid ethol swyddogion. Fel hyn y cawsant eu dewis y flwyddyn hon — Llywydd: Mr William Parry; Is-Lywydd: Mrs Heather Jones; Arweinydd: Myfanwy Jones; Cadeirydd: Aled Jones; Is-Gadeirydd: Alwyn Jones; Ystrifennydd Rhaglen: Gail Warrington; Ysgrifennydd Cystadleuthau: Helen Jane Jones;

Ysgrifennydd y Wasg: Nia Lyn Jones.

Bob blwyddyn mae'r clwb yn rhoi cwpan (Cwpan Dinas) i'r aelod mwyaf gweithgar drwy'r flwyddyn. Y flwyddyn yma Myfanwy Jones enillodd y cwpan.

Hoffwn gymeryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am fod mor weithgar drwy'r flwyddyn, ac hefyd yn y Rali. Hoffwn ddiolch hefyd i Myfanwy am fod mor amyneddgar gyda ni am flwyddyn arall.

Llongyfarchiadau hefyd i Ellen Hughes, gan iddi briodi yn ddiweddar gyda Richard Jones. Gobeithio bydd y ddau yn hapus yn eu bywyd priodasol.

Lwc dda i bawb fydd yn mynd i gynrychioli'r sir yn Sioe Frenhinol Cymru. Gobeithio y cewch rywffaint o lwyddiant ac yn arbennig hwyl yno.

## OFFERYNNWYR BUDDUGOL



Daeth llwyddiannau eto i ran Seindorf Ieuencid Deiniolen yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon ac Eisteddfod Môn yn ddiweddar.

Enillodd y Seindorf y wobwr gyntaf dan 25 oed a dyna hefyd fu hanes yr ensemble dan 15 oed (Lluniau uchod a chwith).

Cawsant hefyd y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth ensemble dan 15 oed.

Enillodd Eilir Williams y drydedd wobwr am unawd pres dan 15 a Dylan Cole Jones, trydydd yn y gystadleuaeth i rai dros 15 oed.

Yn Eisteddfod Môn daeth Martin Williams, Eilir Williams a Siôn Wyn Hughes yn gyntaf, ail a thrydydd yn yr unawdau dan 15 oed. Daeth Dylan Williams ac Iwan Williams yn



ail ac yn drydydd yn yr unawdau dan 19 oed. Deiniolen ddaeth i'r brig yn y grŵp offerynnol.

### W. H. JONES

TRYDANWR  
Green Bank  
Stryd Fawr  
LLANBERIS  
Ffôn: Llanberis  
871470

Cottractau Weirio Tai  
Cawodydd Trydan  
ac ati

### GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis  
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau  
Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati,  
Peis, Rholiau Sosej,  
Pasteiod, Teisennau Hufen,  
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**  
Stryd Fawr, Llanberis 870491

### GERAINT OWEN

Gosodwr  
carpedi a phob  
math o lorïau

Cil-y-Mynydd  
WAUNFAWR  
Ffôn:  
Waunfawr 552



# CARNIFAL LLANBERIS



**Nos Sul 15 Gorffennaf**  
Capel Coch am 8 pm  
**NOSON O GÂN**

gyda **Chôr Meibion Caernarfon**  
**Plant Ysgol Dolbadarn**  
a Rhian Owen

**Nos Lun 16 Gorffennaf**  
7.30 pm Y Ganolfan  
**GYRFA CHWIST**

8.00 pm Clwb y Lleng Brydeinig  
**CYSTADLEUAETH PŴL**

**Nos Fawrth 17 Gorffennaf**  
6.00 pm Dol y Goeden  
**MABOLGAMPAU**

8 pm Gwesty'r Prince of Wales  
**CWIS – Rownd Derfynol**

**Nos Fercher 18 Gorffennaf**  
8.00 pm Gwesty Dolbadarn  
**CYSTADLEUAETH DDARTIAU**

6 - 7.30 pm Y Ganolfan  
**DISCO PLANT IAU**  
8. - 10.00 pm  
**DISCO PLANT HŶN**

**NOS IAU 19 GORFFENNAF**  
6.00 pm Dol y Goeden  
**PÊL DROED A PHÊL RŴYD**

**Nos Wener 20 Gorffennaf**  
7.30 pm Clwb y Lleng Brydeinig  
**BINGO**



**Dydd Sadwrn 21 Gorffennaf**

## Y CARNIFAL

Dol y Goeden

Yr orymdaith yn gadael Swyddfa'r Post am 1.00 pm

- ★ Ffair fach ★ Arddangosfa Gymnasteg
- ★ Bargeinion Iu ★ Cwn Poeth
- ★ Modelau Awyrennau ★ Gemau fil
- ★ Lluniaeth ★ Sêl Bwt Cerbyd ★ Hufen Ia
- ★ Gleider Para ★ Dawnsywyr Morus
- ★ Hwyl a sbri

Bandiau Llanberis a Deiniolen yn arwain yr orymdaith.

Hen gerbydau – noddir gan Fiat

Agorir y Carnifal gan Dr Dan Rowland a Mrs Hughes

## ATHLETWYR IEUANC LLANRUG



Tim Athletwyr Ysgol Gynradd Llanrug a ddaeth yn fuddugol ym Mabolgampau Cylch yr Urdd yn ddiweddar.

## YR YSFA I GRWYDRO

Mae 'na hen ddihareb Sieneaidd sy'n datgan 'fod y sawl sy' wedi crwydro mil o filltiroedd yn ddoethach o gryn dipyn na'r sawl sy' wedi darllen mil o lyfrau'. 'Does dim angen creadur doeth iawn i sylwi faint o wirionedd sy' yn y gosodiad yna.

Mae 'na rai mannau ar wyneb yr hen blaned 'ma lle y bum i'n deisyfu am gael eu gweld a'm llygaid fy hun, yn hytrach na thrwy lygad camera. Llefydd fel y Ceunant Mawr (Grand Canyon), Rhaeadr Niagara, Y Môr Marw — (nofio, neu yn hytrach eistedd ynddo — cefais y profiad o wneud hyn a darllen Eco'r Wyddfa ynddo yr un pryd). Bu brofiad hallt iawn. Profiad bythgofiadwy oedd cael mynd ar daith ar gefn camel i gyrrion Anialwch Sahara hefyd. Ychydig wythnosau yn ôl cefais y fraint o ymweld â rhai o ryfeddodau Awstralia hefyd — sef y Barrier Reef a Ayres Rock, — y graig ryfeddol yna sy'n sefyll yng ngaholol cyfandir Awstralia.

Bydd amryw yn gofyn i mi o dro i dro awgrymu mannau diddorol, gwledydd neu ddinasoedd a fyddai'n debygol o greu argraff arnynt. Wel, yn sicr rwy'n credu y dylai pawb sy'n ymddiddori yn hanes yr hen fyd 'ma geisio trefnu i ymweld â Rhufain, Groeg, a Chaersalem.

Beth am y byd modern cyfoes? Wel ia. mae gen i atgofion hyfryd iawn am ddinasoedd fel San Francisco, Istanbul, Las Vegas (lle da i golli arian), Los Angeles, Sydney, New York, Moscow, Leningrad, a sawl lle arall.

Hefyd mae dinasoedd gwledydd y Trydydd Byd fel Tunisia a Morroco yn lefydd hynod o ddiddorol am wahanol resymau.

Wrth gwrs, mae un yn cael ei siomi mewn ambell i le. Rwy'n cofio i mi fod yn siomedig iawn ar ôl fy ymweliad â Hawaii o bobman (Honolulu). Efallai y rheswm am hyn ydoedd i mi fynd yno yn syth o baradwys Fiji, lle nad oedd y pryd hynny yr un set deledu yno. Ond eto, 'roedd y papur dyddiol cynta i ymddangos bob dydd yn cael ei gyhoeddi yn Fiji. Sut felly? Wel, mae'r International Date Line yn

mynd drwy ganol Ynysoedd Fiji. Ia, rhyfedd o fyd ynte! Rwy'n cofio cychwyn o Fiji ar ddydd Mawrth a chyrraedd San Francisco y diwrnod cynt (dydd Llun). Ydy, yn sicr mae'r sawl sy'n teithio llawer yn dysgu tipyn mwy na'r sawl sy'n darllen llawer. Profiad, hwnna ydio!

Un o'r profiadau mwya diddorol a gefais yn ystod fy nheithiau, oedd cael treulio un prynhawn ar lan yr Afon Strwma ym Macedonia. Do, mi welais i Nico yno hefyd. Un o ddisgynyddion y 'nico anwl' hwnnw a anfonwyd i Fôn gan Cynan? Pwy a wŷr?

I ble nesa? Dyna gwestiwn a ofynnir i mi mor aml. Wel, tydi'r hen fyd 'ma yn lle mor fawr. Fum i 'rioed ar gyfandir De America. Fum i 'rioed yng Ngwlad yr Iâ, a fum i rioed ar gopa Cader Idris chwaith.

Ond, mi gofias am byth am ryfedod y graig hynod 'na sy'n aros fel crwb an enfawr ynghanol anialdir Awstralia. Digon o waith y cai weld hon a'm llygad fy hun eto, ond fe erys am byth ar fideo'r cof.

Selwyn Griffith

## CABS LLANRUG



**C'fon 5951**

**Prisiau cystadleuol**  
**Gwaith contract**  
**pell ac agos**



## MABOLGAMPAU YSGOL BRYNREFAIL

Canlyniadau'r Cyfarfod Athletau — Eryri: 151; Elidir: 183; Eilian 171: Gwyrfa 200.

**Pencampwr** (Victor Ludorum): **Jonathan Davies** — 27 pwynt i dŷ Eryri.  
**Pencampwraig** (Victrix Ludorum): **Caitlin Wroe** — 29 pwynt i dŷ Gwyrfa.

### PERFFORMIADAU ARBEBNIG

**Siôn Hughes** — ennill 4 cystadleuaeth a 26 pt. i dŷ EILIAN.  
**Aled Griffiths** — ennill 3 cystadleuaeth a 18 pt. i dŷ EILIAN.  
**Gareth Parry** — ennill 3 cystadleuaeth ac 16 pt. i dŷ ELIDIR.  
**Helen Hughes** — ennill 3 cystadleuaeth a 16 pt. i dŷ GWYRFAI.  
**Caroline Jones** — ennill 5 cystadleuaeth a 26 pt. i dŷ ERYRI.  
**Nicola Houston** — ennill 22 pt. i dŷ ERYRI.

Ymddiheurwn am na ddaeth lluniau'r enillwyr uchod i'r amlwg — roedd nam ar gamera'r 'Eco'.

## CLWB SNWCER DEINIOLEN — MWY O DLYSAU



Tim Snwcer y 'Duon' Deiniolen, enillwyr Cwpan Pattison, Cynghair Bangor a'r Cylch. Mae 25 mlynedd er pan fu'r cwpan yn meddiant Deiniolen o'r blaen. Heb fod yn y llun mae Ian Williams, Peter Roscoe a Gareth Grindley.

## CRICED YSGOL BRYNREFAIL

### TLWS YSGOLION GWYNEDD DAN 14 OED

Colli fu hanes tim yr Ysgol yn erbyn Ysgol Friars yn rownd 1af y gystadleuaeth yma, — FRIARS 97 mewn 25 pelawd, BRYNREFAIL 28 i gyd allan.

Yn y gorffennol bu nifer o fechgyn yr ysgol yn chwarae i dîm ieuenticid FRON DINAS ac erbyn hyn mae llawer ohonynt yn chwarae yn rheolaidd i'r timau 1af ac 2il bob penwythnos. Eleni eto bu bechgyn o'r 3ydd, 4edd a'r 5ed flwyddyn yn chwarae i'r tîm ieuenticid bob nos Wener, a bydd rhai ohonynt hwythau o bosib hefyd a dyfodol disglair yn y gêm. Dyma'r bechgyn sydd wedi chwarae hyd yma: **Alan Pritchard** (Nant Peris — Alan hefyd yn gapten y tîm); **Edward Rogers** (Llanberis); **Meical Moran** (Llanberis); **Dyfed Whiteside Thomas**, **Iolo Eilian**, **Aled Roberts** a **Meical Owen** (Llanrug); **Raphael Ginsberg** (Bethel).

### TIM PELDROED DAN 14 OED DEINIOLEN



Llongyfarchiadau i dîm Pêl-droed dan 14 Deiniolen, ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan y Gynghair. Dyma nhw efo eu hyfforddwyr Bryn Jones a Steven Evans.

**YSTORFA MINFFORDD STORES**  
GAETHRO  
GAERNARFON

YR HEN BOST 1887-1987  
AR TYRPEG 1817-1886

**Nwyddau Groser**  
**Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau**

## PYSGOTA

Segur fu y rhan fwyaf o'r genweiri yn ystod Mehefin eto, gyda'r afonydd mor isel fel eu bod yn dangos eu hesgyrn. Er fod yr ychydig law yn nechrau'r mis wedi eu codi am rhyw ychydig ddyddiau, er hynny ni chlywais am yr un Sewin wedi ei fachu.

Ers dros ugain mlynedd bellach, mae'r Gymdeithas wedi dal prydles y 'sgota ar fferm Greuor, Llanrug. Rydym wedi clywed fod y fferm wedi ei gwerthu i berchnogion Llwyn Brain, sef Leading Leisure. Bydd yn rhaid cael trafodaethau â nhw ynglŷn â'r dyfodol!

Llongyfarchiadau i Dewi Jones, Cenarth, Bethel, ar gael ei ddewis i dîm Rhyngwladol Cymru yn y gystadleuaeth ar Lyn Rutland ar Fehefin 15 a 16. Daeth Cymru yn ail, y tu ôl i'r Iwerddon. Cafodd Dewi ddau sgodyn, 1½ pwys a 1¼ pwys.

Mae'r gwaith o adeiladu'r ddeorfa yn mynd yn ei flaen yn dda, gan ystyried ei fod i gyd yn wirfoddol. Trueni mai'r unig sefydliad sy'n rhoi cymorth ariannol i'r fenter, fydd yn denu diddordeb pobl o bob oed ac o bob cwr, yw cwmni Benson a Hedges trwy gyswllt y llyfryn 'Trout and Salmon'. Ble mae Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Bwrdd Twristiaid?

Efallai nad oes dim ar gael i Sefydliadau lleol. Clywais lawer cwyn fod y cyrff yma yn gallu rhoi arian at rhai pethau yn iawn!

Wrth gau — newydd glywed fod haid o Sewin wedi cyrraedd Llyn Du ar ôl y tipyn glaw ddoe (y 17fed). Codi calon yn syth, ac mae'r gwynt yn codi hefyd. Wel, Llyn Llanbêr amdani heno.

### NEWID DYDDIAD RÂS YR WYDDFA

*Eleni, am y tro cyntaf yn ei hanes, nid yw Râs yr Wyddfa yn cael ei*



*Meirion Jones a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Billiards Gogledd Cymru, a Hefin Jones a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth unigol snwcer Cynghair Bangor a'r Cylch. Beth am fynd un yn well y tymor nesa' hogia?*

*chynnal ar yr un Sadwrn â Charnifal Llanberis. Gan fod cannoedd o bobl fel arfer yn cael eu denu i'r pentref i wylïo cychwyn a diwedd y Râs, teimla'r trefnwyr fod cyfle eleni i fudiadau lleol elwa ar y gwylwyr a'r cefnogwyr hyn drwy baratoi ar eu cyfer cyn ac yn ystod y Râs. Os oes unrhyw fudiad lleol (hynny yw, ardal yr 'Eco') â diddordeb mewn helpu ar y diwrnod drwy gynnal stondin neu ddiddanwch o unrhyw fath — a hynny er budd eu mudiad, yna cysylltwch ar unwaith â Ken Jones, 6 Blaen Ddôl, Llanberis, er mwyn cael mwy o fanylion.*

**NatWest**  
Y Banc Gweithredol



# RAS RYNGWLADOL YR WYDDFA

Sadwrn 28 Gorffennaf  
1990 am 2 pm

Ras y Plant am 2.05 pm

Atyniadau eraill drwy ofal  
CYNGOR ARFON

Cynhelir Ras yr Wyddfa  
gyda chymorth Cyngor  
Bwrdeistref Arfon





# CHWARAEON

## CYFLE DEINIOLLEN WEDI DOD O'R DIWEDD Adroddiad gan y Clwb Pêl Droed

Mae'n rhaid mynd yn ôl dros ddeng mlynedd ar hugain i gofio gweld chwarae gemau Cynghrair ar gae pêl droed yn Neiniolen.

Roedd y cae pryd hynny ym Mhen y Bont, ym mhen pellaf y pentref, ac fe chwaraewyd arno rhwng 1952 a 1958 pan oedd y cae ar lês o 99 o flynyddoedd gan Stad y Faenol. Fe weithiodd y chwaraewyr a'r cefnogwyr fel ei gilydd yn galed iawn i wella safon y cae ar gyfer chwarae gemau'r Cynghrair arno. Yn wreiddiol, roedd ymhell o fod yn wastad, ac fe olygodd hynny waith llafur caled ar ran nifer i'w lefelu. Yn wir bu yn rhaid defnyddio ffrwydron i gael gwared o'r creigiau oedd arno. Yn ffodus, ar y pryd, roedd ganddynt chwaraewr yn eu tîm oedd yn berchen ar drwydded i ddefnyddio ffrwydron, sef neb llai na Mr Alun Wyn Evans, Cadeirydd presennol y Clwb. Ar ben hyn, roedd yn rhaid gofalu fod y garthffosiaeth yn rhedeg i afon Caledffrwd gerllaw.

Faint o dimau presennol fyddai yn barod i wneud yr holl waith llafur corfforol caled er mwyn sicrhau cae pêl droed iddynt eu hunain? Dengys cymaint o ddycnwch oedd yn bodoli y pryd hynny, a'r cyfan yn nodweddiadol o chwarelwyr y cyfnod. Siomiant felly ar ôl y llafur caled oedd gweld y cyfnod yma o bêl droed Cynghrair yn Neiniolen yn dod i ben mor fuan. Yn 1957 fe rwystrwyd y tîm rhag chwarae am rai misoedd oherwydd i'r clefyd traed a'r gemau dorri allan. Fe ddilynwyd hynny gan ddirwasgiad yn 1958 a gwelwyd ffermydd ac eiddo yn cael eu gwerthu ac fel canlyniad fe gollwyd y cae yn ôl i stad y Faenol.

Mae'r wir y gwelwyd pêl droed yn Neiniolen dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, ond yn unig ar lefel iau gyda bechgyn ysgol yn chwarae yng Nghynghrair Gwyrfaï. Dros y blynyddoedd mae gwaith gwych wedi ei wneud gan bwyllgor a rheolwyr y Tîm Iau ac mae chwaraewyr fel Malcolm Allen yn dyst o hynny.



Yn y ddau dymor diwethaf bu tîm hîn o'r pentref yn chwarae yng Nghynghrair Sain, ac ar nos Fercher, y 6ed o Fehefin bu i'r Clwb gynnal eu Noson Cyflwyno Gwobrau yn Ysgol Gwaun Gynfi. Roedd y noson yng ngofal Mr Edwin Evans (Edwin 'Saer') ac fe hoffai'r Clwb ddiolch iddo am wneud ei waith mor rhagorol. Y Cadeirydd Mr Alun Wyn Evans (dwi'n siŵr i ni glywed yr enw yma o'r blaen) ar ran y Clwb a gyflwynodd y tlysau fel a ganlyn: Chwaraewr y Flwyddyn: Merfyn Morris; Ail Chwaraewr y Flwyddyn: Alwyn Williams; Chwaraewr y Flwyddyn (dewis y Chwaraewr eu hunain): Alwyn Williams; Prif Sgoriwr gyda 19 o goliau: Phil Warrington; Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Arwel Hughes; Ail Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn: Kevin Neary; Chwaraewr Mwyaf Addawol: Keith Owen.

Cyflwynwyd 'Tlws Disgyblaeth' y Cadeirydd (rhodd gan Mr Alun Wyn a Mrs Laura Evans) i Kevin Neary am ei ymddygiad rhagorol ar y cae a thu allan trwy gydol y tymor. Hefyd cyflwynwyd tlysau i Kevin Jones, y Capten, ac i'r Rheolwr, Mr Gareth Edwards, am eu gwaith yn ystod y tymor.

Cyflwynwyd blodau i Dawn Owen (Wellington Inn) a Mrs Claris Roberts (Bull Inn) am eu cefnogaeth werthfawr ac am eu cydweithrediad parod wrth

## ENILLWYR TLYSAU'R TYMOR — CLWB PELDROED DEINIOLLEN



godi arian i'r Clwb trwy gydol y tymor. Cyflwynwyd sic am y swm o £100 gan y Capten, Kevin Jones, ar ran y Clwb i Mrs Eirlys Lloyd Jones o Glwb Elidir. Yn gwbl annisgwyl cyflwynwyd gwobr gan Mrs Gwen Griffith ar ran y Pwyllgor i'r Cadeirydd am ei gyfraniad di-flino o godi arian i'r Clwb trwy gydol y tymor. Hefyd gwerthfawrogwyd cefnogaeth Mrs Laura Evans, gwraig y Cadeirydd pan gyflwynwyd tusw o flodau iddi.

Y tymor hwn bu i'r Clwb wneud ychydig yn well o safbwynt eu safle yn y Cynghrair na'r llynedd trwy orffen ychydig o dan hanner ffordd, a buont yn anlwcus iawn yn y gemau cwpan.

Cafwyd cefnogaeth dda drwy gydol y tymor, ac fe hoffai'r Pwyllgor a'r chwaraewyr ddatgan eu diolchiadau diffuant i bobol y pentref a rhai o'r tu allan (llawer gyda chysylltiadau agos â Deiniolen) sydd wedi bod yn hynod o hael gyda'u cefnogaeth a'u cyfraniadau. Mae'r cyfraniadau hyn wedi dod mewn llawer dull a modd, sieciau, peli, arian, eitemau ar gyfer raffls (gyda diolch arbennig i Dafydd Twins sydd wedi cyfrannu tuag at bob raffl — diolch yn fawr Dafydd).

Fodd bynnag, er mwyn gwneud yn siŵr nad ydym yn gadael neb allan, hoffwn ddweud fod pob cyfraniad, boed fach neu fawr wedi ei werthfawrogi. Llawer o ddiolch i'r cefnogwyr brwd sydd wedi gweiddi dros y tîm yn ystod y tymor a hynny ymhob tywydd. Pan mae gofyn am gymorth, cefnogaeth a digon o galon, yna mae Deiniolen ar frig y Cynghrair.

Felly mae pêl droed safon hîn yn ôl yn Neiniolen ynghyd â thimau hogiau iau; o dan 12 oed; 14 oed a 16 oed sydd yn chwarae yng Nghynghreiriau Gwyrfaï. Mae pob un o'r pedwar tîm yn chwarae eu gemau 'cartref' ar gae Ysgol Brynrefail. Mae cludiant ynddo ei hun yn gyfrifol am gostau mawr. Wrth gwrs mae'r timau iau, gan eu bod yn ddisgyblion yn yr ysgol yn cael defnyddio'r cae am ddim. Fodd bynnag, y tymor diwethaf bu i'r Clwb Hîn dalu swm rhesymol am ddefnyddio cae ac ystafelloedd newid yr ysgol. Felly hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r cyn-Brifathro Mr Elfyn Thomas a'r Adran Addysg am fod mor gefnogol ac amyneddgar â ni. Ein diolchiadau diffuant iddynt.

Gobeithiwn y bydd y Prifathro newydd, Mr John Grisdale a Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail yn parhau i fod yr un mor gefnogol i Ddeiniolen am o leiaf dymor arall, a pheidio a chodi'r tâl yn ormodol pan ddaw y tymor newydd. Hoffwn sicrhau pawb ein bod yn gwneud ein gorau, a bod gobaith gwirioneddol y bydd Deiniolen yn gallu gwella safon cae chwarae 'Y Bwthyn' ar gyfer chwarae gemau Cynghrair yno yn y dyfodol agos. Ein gobaith yn awr yw cael Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Arfon i weithio gyda ni er mwyn sicrhau y bydd gennym gae teilwng ar ein cyfer.

Rydym fel pentrefwyr yn teimlo yn gryf iawn fod yr amser wedi dod i ni gael cae addas yn y pentref, yn wir mae gwir angen am gae ac ystafelloedd newid.

Fy mreuddwyd a breuddwyd llawer un arall yn gweld tîm iau yn chwarae pêl droed ar fore Sadwrn yn 'Y Bwthyn' a gweld y tîm hîn yn chwarae ar yr un cae yn y prynhawn. A yw cyfle Deiniolen wedi dod? Rwyf yn gobeithio yn fawr.

J. C. Thomas (Ysgrifennydd Clwb Peldroed Deiniolen)

## LLWYDDIANT I DÎM SNWCER Y 'GLEISION' — DEINIOLLEN



Stan Roberts a Len Parry — enillwyr y gystadleuaeth i barau yng Nghynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch.



Tim Snwcer y 'Gleision', Deiniolen — pencampwyr Cynghrair 'B' Bangor a'r Cylch.

Dan gapteniaeth Len Parry, nhw oedd enillwyr Cynghrair 'B' Bangor a'r Cylch. Ni chollwyd yr yn gêm drwy'r tymor.

Mewn noson wobrwyo yn y Clwb Cymdeithasol ym Mangor, gwobrwywyd Len Parry a Stan Roberts am ennill y gystadleuaeth i barau. Stan Roberts hefyd a enillodd y tlws am y perfformiad gorau o blith aelodau'r tîm.

Daeth Dennis Thomas yn agos at wneud y toriad uchaf.

Pob dymuniad da i'r tîm y tymor nesaf, pryd y byddant yn ymuno â'r Duon, yng Nghynghrair 'A'.